

Free / Am Ddim

# Rural Walks in Flintshire

*Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint*



Flintshire Countryside Service

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint



## Rural Walks in Flintshire



## *Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint*

Including new Ten Minute Walks / Gan gynnwys teithiau cerdded 10 munud newydd

Third Edition / Trydydd rhifyn



# Welcome to Flintshire

## Contents

The Walks .....	4
Choosing your Walk .....	6
Using this Guide .....	8
Flintshire's Landscapes .....	12
Flintshire's Heritage .....	20
Walk Descriptions .....	26
Meet the Health Challenge - Walk more often .....	78
Open Access .....	80
Explore Flintshire .....	82
A Taste of Flintshire .....	84
Further Information .....	87

## Cynnwys

<i>Y Teithiau Cerdded</i> .....	4
<i>Dewis eich Taith</i> .....	6
<i>Sut i Ddefnyddio'r Arweiniad hwn</i> .....	8
<i>Tirweddau Sir y Fflint</i> .....	12
<i>Treftadaeth Sir y Fflint</i> .....	20
<i>Disgrifiad o'r Teithiau</i> .....	26
Wynebu'r Her Iechyd - Cerddwch yn amlach .....	79
Mynediad Agored .....	80
Archwilio Sir y Fflint .....	83
Blas ar Sir y Fflint .....	85
Rhagor o wybodaeth .....	87



# Croeso i Sir y Fflint

Rural Flintshire is a landscape of incredible variety. Walk the magnificent open moorland of the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) for its strenuous ascents to wild, upland heaths with stunning views. Explore the quiet riversides, wooded valleys, and rolling farmland of Llanasa, Ysceifiog, Whitford and Caergwrle. Discover the wildlife-rich coasts that fringe our county at Talacre and along the Dee Estuary. Or for an alternative stroll, why not discover the rich stories of industrial heritage of Halkyn, Greenfield and Buckley?

*Yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint mae yna dirwedd sy'n anhygoel o amrywiol. Crwydrwch ar rostiroedd godidog Bryniau Clwyd, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gan fwynhau dringo'n egniol i'r rhostir gwyllt i weld golygfeydd syfrdanol. Ewch i lannau tawel yr afonydd, y cymoedd coediog a'r tiroedd fferm yn Llanasa, Ysceifiog, Chwitffordd a Chaergwrle. Dewch i weld cyfoeth y bywyd gwyllt ar arfordir ein Sir yn Nhalacre ac yn Aber yr Afon Dyfrdwy. Neu, am dro bach gwahanol, beth am ddod i ddarganfod yr hanesion diddorol sydd yn ardaloedd diwydiannol Helygain, Maes Glas a Bwcle?*



Also available...  
Rural Walks in Denbighshire  
Out Now!

*Hefyd...*  
*Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych*  
*Ar gael nawr!*

Produced by Flintshire Countryside Service, in collaboration with the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty, the Ramblers Association, Flintshire's Tourism Section and the Countryside Council for Wales.


The maps in this publication are reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office  
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Flintshire County Council, 100023386

First edition 2006 kindly funded by Article 33 from the Welsh Assembly Government. Reprint 2008. Third edition 2010 reprint supported by Flintshire's Rural Development Partnership.

*Cynhyrchwyd gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint, mewn cydweithrediad ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, Cymdeithas y Cerddwyr, Adran Dwrstiaeth Sir y Fflint a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.*

*Atgynhyrchir y mapiau yn y daflen hon o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi  
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn anwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir y Fflint, 100023386*

*Ariannwyd y rhifyn cyntaf yn 2006 trwy garedigrwydd Erthygl 33 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ailargraffiad 2008. Ailargraffwyd trydydd rhifyn 2010 gyda chymorth Partneriaeth Gwledig Sir y Fflint.*



# The Walks

## Y Teithiau Cerdded

This book features 29 of the best walks in rural Flintshire. They have been picked to give you a wide variety of routes that can be enjoyed throughout the year. See page 6 for further details on how the walks have been graded.






























See also pages 78-86 for information about open access and other walking opportunities in the county.

Yn y llyfr hwn ceir 29 o deithiau cerdded gorau cefn gwlad Sir y Fflint. Cafodd pob taith ei dewis yn ofalus gennym er mwyn cynnig nifer o deithiau amrywiol y gallwch eu mwynhau drwy'r flwyddyn. Edrychwch ar dudalen 6 i gael gweld sut rydym wedi graddoli'r troeon.


Edrychwch ar dudalennau 78-86 i gael gwybod am y tir Mynediad Agored a ffyrdd eraill i ymweld â'r Sir.

### Grade / Graddfa:

-  Easy / Hawdd
-  Moderate / Cymedrol
-  Strenuous / Egniol
-  Open access common / Comin mynediad agored
-  10 minute walk  
Taith gerdded 10 munud

Walk number / Rhif y daith	Walk name / Enw'r daith	Distance / Pellter		Page / Tudalen
		Miles / Milltiroedd	km / km	
 1	Caerwys – Ysceifiog Caerwys – Ysgeifiog	5	8	26-27
 2	Ffynnongroyw (Long / Hir)	4.6	7.4	28-29
 3	Ffynnongroyw (Short / Byr)	3.7	5.9	28-29
 4	Hawarden Penarlâg	5	8	30-31
 5	Hope Mountain Mynydd yr Hob	6	9.6	32-33
 6	Nant y Ffrith	5.5	8.8	34-35
 7	Northop – Sychdyn Llaneurgain – Sychdyn	5	8	36-37
 8	Waun y Llyn – Llanfynydd	4	6.4	38-39
 9	Wepre (Long) Gwepra (Hir)	4	6.4	40-41
 10	Wepre (Short) Gwepra (Byr)	2.5	4	40-41
 11	Whitford Chwitffordd	5	8	42-43
 12	Talacre	1.7	2.8	44-45
 13	Buckley Bwcle	2.8	4.5	46-47
 14	Caerwgrle & Hope Caerwgrle a'r Hob	2.5	4	48-49
 15	Greenfield Valley Dyffryn Maesglas	2.5	4	50-51
 16	Halkyn Mountain Mynydd Helygain	Open access common Comin mynediad agored		52-53
 17	Gwaenysgor – Llanasa	6.2	10	54-55
 18	Hendre-Bodfari	6.8	11	56-57
 19	Loggerheads – Cilcain	6	9.6	58-59
 20	Loggerheads – Moel Famau	6.1	9.8	60-61
 21	Loggerheads – Moel Findeg	5	8	62-63
 22	Moel Arthur – Cilcain	6	9.6	64-65
 23	Moel Arthur – Penycloddiau	6.8	11	66-67
 24	Nercwys Forest Coedwig Nercwys	2.4	3.9	68-69
 25	Trelawnyd – Gwaenysgor	5.5	8.8	70-71
 26	Wepre Park Parc Gwepra	10 min		72
 27	Etna Park Parc Etna	10 min		73
 28	Pandy Pool Pwll Pandy	10 min		74
 29	Dee Coastal Path Llwybr Arfordirol Afon Dyfrdwy			75-76





**Flintshire**  
 Sir y Fflint



**Greenfield Maesglas**  
 Country Park  
 Parc gwledig

Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty  
 Ardal of Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd

12
 10 minute walk  
 Taith gerdded 10 munud

# Choosing your Walk

## Dewis eich Taith

This book has been designed to introduce you to some of the best walking that Flintshire has to offer. In order that you enjoy your day to its fullest, be realistic about what level of walk best suits your ability.

The walks are graded **EASY**, **MODERATE** and **STRENUOUS**. Some sections on many of the walks are suitable for buggies or wheelchairs, but none are fully accessible. See walks' descriptions for detail.

**EASY** Generally flat and relatively short distances. Follows surfaced tracks, lanes or well-trodden footpaths.

**MODERATE** Undulating farmland, following quiet lanes, paths and tracks, often with many stiles. 4-6 miles distance.

**STRENUOUS** Open country with at least one steep ascent/descent. More than 5 miles. Follows paths, tracks and may use Open Access Land (page 80).

### ☐ The 10 Minute Walks

We have also identified sections of our Rural Walks across Flintshire that are ideal for a short trip in the countryside for families wanting to get out with young children, wheelchair users, or anyone who can only do a short distance.

Each section will be near a good place to park, and the grading below will give you an idea of what to expect of the surface. This guide assumes that all kissing gates are unsuitable for wheelchairs or buggies to get through.

- Access for a wheelchair or buggy. Flat, level surfaces.
- - - - No wheelchair / buggy access. Fairly level surfaces without stiles, slopes or steps.
- ..... Slightly more adventurous. Good surfaces, but there may be slopes, an uneven section, or one or two steps.

Amcan y llyfr hwn yw eich cyflwyno i rai o deithiau cerdded gorau Sir y Fflint. I fwynhau eich diwrnod i'r eithaf cofiwch fod yn realistig ynghylch pa lefel o daith fydd yn addas ar gyfer eich gallu chi.

Dosberthir y teithiau cerdded fel a ganlyn: **HAWDD**, **CYMEDROL** neu **EGNIÖL**. Mae rhannau o nifer o'r teithiau'n addas i fygis neu gadair olwyn ond nid oes yr un daith yn hygyrch bob cam o'r ffordd. Edrychwch ar y disgrifiadau o'r teithiau i gael y manylion.

**HAWDD** Yn wastad ar y cyfan a theithiau cymharol fyr. Cerdded ar lwybrau sydd ag wyneb caled, a lonydd neu lwybrau a ddefnyddir yn aml.

**CYMEDROL** Tir fferm pantiog, cerdded, cerdded ar lonydd a llwybrau tavel, ambell gamfa. Pellter 4-6 milltir.

**EGNIÖL** Gwlad agored gydag o leiaf un man dringo/disgyn serth. Mwy na 5 milltir. Cerdded ar lwybrau a thraciau gan ddefnyddio Tir Mynediad Agored hefyd, efallai (tudalen 80).

### ☐ Teithiau Cerdded 10 Munud

Rydym hefyd wedi nodi rhannu o'n Teithiau Cerdded sy'n ddelfrydol ar gyfer taith fer i'r wlad e.e. teuluoedd sydd am gerdded gyda phlant ifanc, defnyddwyr cadair olwyn, neu bobl nad dynt yn gallu cerdded ymhell.

Bydd lle da i barcio ger bob un o'r teithiau hyn, a bydd yr allwedd isod yn rhoi syniad i chi o'r dirwedd. Mae'r arweiniad hwn yn cymryd yn ganiataol na all cadeiriau olwyn na bygis fynd drwy giatau mochyn.

- Mynediad i gadair olwyn neu fygi. Tir gwastad.
- - - - Dim mynediad i gadair olwyn na bygi. Tir gweddol wastad, heb gamfeydd, llethrau na stepiau
- ..... Ychydig yn fwy anturus. Llwybrau da ond mae'n bosibl y byddant yn cynnwys llethrau, rhan anwastad neu un neu ddau o stepiau.





# The Countryside Code

## Y Cod Cefn Gwlad

### RESPECT • PROTECT • ENJOY

- Be safe – plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people

### PARCHWCH • DIOGELWCH • MWYNHEWCH

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel adref, a gofalwch warchod bywyd gwylt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill



Please be sensitive to the needs of local residents and farmers and follow the Countryside Code at all times.  
Cofiwch fod yn ymwybodol o anghenion y trigolion lleol a'r ffermwyr drwy ddilyn y Cod Cefn Gwlad bob amser.



Images © Aardman Animation Ltd 2004

For the full Countryside Code and information on where to go and what to do, visit [www.ccw.gov.uk](http://www.ccw.gov.uk) or telephone 0845 130 6229  
I weld y Cod llawn a chael rhagor o wybodaeth am ble i fynd a beth i'w wneud, ewch i [www.ccw.gov.uk](http://www.ccw.gov.uk) new ffoniwch 0845 130 6229



# Using this Guide



Each of the Flintshire walks is illustrated with a detailed map and enough information to find and follow the routes. You should be able to navigate with the guide on its own but always take along the relevant Ordnance Survey Explorer map as a precaution. (265 Clwydian Range, 256 Wrexham/Llangollen or 266 Chester cover all the walks). This is particularly important for the upland routes and those that are more off the beaten track, such as Hope Mountain. Familiarise yourself with the map key and the abbreviations for the route directions (right) before you set off.

Individual walk descriptions are available to download from [www.flintshire.gov.uk/countryside](http://www.flintshire.gov.uk/countryside)

## Be prepared

Wherever you choose to walk, make sure that you wear a stout pair of walking shoes and clothing appropriate for the time of year. Always take spare food and drink with you.

Many of the walks pass pubs and shops, but we advise that you check opening hours before you set out.

## Waymarking

The standard yellow footpath and blue bridleway arrows are used on all routes. However many of the routes have additional waymarking eg. Offa's Dyke National Trail or Flintshire Countryside Service Circular Walk discs. Detail is given in each route description.



Footpath waymark



Bridleway waymark



Permissive path waymark

## Abbreviations

To save space the route directions are note-like and include several abbreviations.

RHS – right hand side

R – right

L – left

LHS – left hand side

KG – kissing gate

BW – bridleway





# Sut i Ddefnyddio'r Arweiniad hwn



Ceir map i ddarlunio pob un o deithiau cerdded Sir y Fflint ac mae yma ddigon o wybodaeth ichi allu ffeindio a dilyn y llwybrau hyn. Dylech fod yn gallu dod o hyd i'r llwybrau gan ddefnyddio'r arweiniad hwn yn unig, ond dylech bob amser gario map Explorer priodol yr Arolwg Ordnans (Bydd 265 Bryniau Clwyd, 256 Wrecsam/Llangollen neu 266 Caer yn ddigonol ar gyfer yr holl deithiau cerdded hyn). Mae cario map yn arbennig o bwysig ar gyfer cerdded ar y mynydd a'r llwybrau diarffordd, fel Mynydd yr Hob. Cyn ichi gychwyn, dylech ddarllen yr allwedd i'r mapiau a'r byrfodau i'r disgrifiadau (ar y dde).

Mae'r holl wybodaeth am y teithiau hyn ar gael i'w llwytho i lawr o [www.siryfflint.gov.uk/cefngwlad](http://www.siryfflint.gov.uk/cefngwlad)

## Paratoi

Ble bynnag y byddwch yn cerdded, gofawch eich bod yn gwisgo esgidiau cerdded cryf, a dillad sy'n addas at yr amser o'r flwyddyn. Cofiwch am fwyd a diod ychwanegol.

Ar lawer o'r teithiau byddwch yn mynd heibio tafarnau a siopau, ond awgrymwn eich bod yn holi am yr oriau agor cyn cychwyn ar eich taith.

## Arwyddion

Ar yr holl deithiau, defnyddir yr arwyddion safonol melyn ar y llwybrau troed a'r rhai glas ar y llwybrau ceffylau. Mae arwyddion ychwanegol ar nifer o'r llwybrau fel Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, neu ddisgiau Taith Gerdded Gylchol Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint. Mae'r holl wybodaeth yma ar gael yn y disgrifiadau o'r teithiau.



Arwydd llwybr troed



Arwydd llwybr ceffylau



Arwydd llwybr caniatol

## Byrfodau

I arbed lle, ysgrifennwyd cyfarwyddiadau'r teithiau ar ffurf nodiadau sy'n cynnwys nifer o fyrfodau.

LIDd – ar y llaw dde

Dd – y dde

Ch – y chwith

LlCh – ar y llaw chwith

GM – gjât mochyn

LlC – llwybr ceffylau



# Taking your Dog

## Mynd â'r Ci am Dro



For many people walking with their dogs is a great pleasure. However, please ensure that your dogs are under control at all times and please clear up after them.

Much of the open moorland on the Clwydian Range is grazed by sheep and many of the other walks cross fields of sheep and cattle. Please make sure your dog is kept on a short lead near livestock at all times and take particular care during the lambing and calving seasons. Cows are very protective of their calves and can chase dogs. Please do not allow your dog to disturb wildlife. Take particular care during the bird nesting season (March-July).

Stiles can prove a problem for some dogs. These are marked on the maps and in the route directions. New "dog friendly" stiles and kissing gates are being installed in busier areas but many traditional stiles remain.

Nercwys Forest, the coastal walk at Talacre, and sections within Loggerheads and Wepre Country Parks, are ideal for dog walking as they have neither livestock nor stiles.

Mae mynd â'r ci am dro yn rhoi pleser mawr i nifer o bobl. Gofalwch fod eich ci o dan reolaeth bob amser a chofiwch lanhau'r baw ar ei ôl.

Bydd defaid yn pori ar lawer o rostiroedd agored Bryniau Clwyd, ac ar nifer o deithiau eraill ceir defaid a gwartheg yn y caeau. Gofynnir ichi ofalu fod eich ci ar dennyn byr pan fo anifeiliaid fferm o gwmpas, a chymerwch ofal arbennig yn ystod y tymor wyna a bwrw lloi. Mae buchod yn amddiffynol iawn o'u lloi a gallant redeg ar ôl cŵn. Peidiwch â gadael i'ch ci darfu ar y bywyd gwyllt. Cymerwch ofal arbennig yn ystod y tymor nythu (Mawrth - Gorffennaf).

Gall camfeydd fod yn anodd i rai cŵn. Dangosir y camfeydd ar y mapiau ac yn y cyfarwyddiadau i'r teithiau cerdded. Yn y lleoedd prysur gosodwyd camfeydd newydd a giatiau mochyn, sy'n haws i gŵn, ond mae llawer o'r hen gamfeydd yn dal yno.

Dyma leoedd sy'n ddelfrydol ar gyfer mynd â'r ci am dro heb unrhyw gamfeydd nac anifeiliaid fferm:- Coedwig Nercwys, Llwybr Glan y Môr Talacre, a rhannau o Barciau Gwledig Loggerheads a Gwepre.





# Using the Bus *Mynd ar y Bws*

Using the bus network is an ideal way to reduce traffic problems in the rural villages. It is particularly good for linear walks, avoiding the need to leave cars at start and finish.

The number **14 Mold-Denbigh** bus runs regularly, Monday to Saturday, throughout the year and is useful for accessing walks along the Clwydian ridge. (See Walk 18, Hendre-Bodfari). The **B5 Loggerheads Link**, from Mold to Ruthin, may also be useful for walkers.

In summer Denbighshire County Council and the AONB run the **Clwydian Ranger** service on Sundays and selected weekdays. This includes additional routes that are ideal for walkers wanting to explore the Clwydian Range without their car.

#### For timetables telephone:

Flintshire County Council  
01352 704035

Denbighshire County Council  
01824 706968



Ffordd ddelfrydol o leihau problemau traffig yn y pentrefi gwledig yw defnyddio'r rhwydwaith bysiau. Mae taith ar fws yn arbennig o hwylus ar gyfer y teithiau cerdded llinellol, gan arbed yr angen am barcio ceir ar y dechrau a'r diwedd.

Mae bws rhif **14 o'r Wyddgrug i Ddinbych** yn rhedeg yn rheolaidd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn drwy'r flwyddyn, mae'n hwylus ar gyfer y teithiau ar Fryniau Clwyd (gweler taith 18, Hendre i Fodfari). Gall y **B5 (sef Dolen Loggerheads)** o'r Wyddgrug i Ruthun fod o gymorth i gerddwyr hefyd.

Yn ystod yr haf bydd Cyngor Sir Ddinbych ac AHNE yn rhedeg gwasanaeth **Bysiau Clwyd** ar ddydd Sul ar rai penwythnosau penodol. Cynigia'r gwasanaeth hwn rai ffyrdd ychwanegol sy'n ddelfrydol i'r cerddwyr sydd am ddarganfod Bryniau Clwyd heb ddefnyddio'u ceir.

#### I gael taflen amser, ffoniwch:

Cyngor Sir y Fflint ar  
01352 704035

Cyngor Sir Ddinbych ar  
01824 706968



# Flintshire's landscapes

## Moorland / Rhostiroedd



Clwydian Range  
Bryniau Clwyd



Meadow pipit  
Corhedydd y waun

Windswept and wild in winter, the open moorland becomes a breathtaking spectacle in summer. The heather flowers and seems to turn the hillsides purple, even though bilberry and the prickly gorse thrive alongside it. Where the mountain rains gather, bright green rush and spongy moss are spotted with the white fluffy dots of cotton grass, and insectivorous sundews. When insect snacks are plentiful the high moorland is alive with birdsong. Buzzards hunt overhead for unwary rabbits. Smaller migrant birds such as wheatears and whinchats return to the moorland to breed, and skylarks sing lustily, high in the sky.

Dyma dirwedd wyllt a gwyntog yn y gaeaf ond pan ddaw'r haf fe dry'r rhostir agored yn syfrdanol o hardd. Pan fydd y grug yn ei flodau bydd y moelydd yn borffor ac yn ei ganol bydd llus y mynydd ac eithin yn ffynnu. Yn y mannau lle mae glaw'r mynydd yn cronni fe welwch y brwyn a'r mwsogl gwyrdd llachar ymysg planhigion fel plu'r gweunydd a'r gwlythlys pryfysol. Pan fo digonedd o bryfed ar gael i'r adar yna mae'r mynydd yn fyw gyda'u canu. Uwchben, bydd y bwncathod a'r cudyll coch yn chwilio am y cwingod anwyliadwrus. Daw'r adar ymfudol llai fel y dinwen a chrec yr eithin yn ôl i'r ardal i fagu cywion, ac fe glywch yr ehedydd yn uchel uwch eich pen.



# Woodland / Coedlannau



Bishop's Wood  
Coed yr Esgob



Great spotted woodpecker  
Cnocell fraith fwyaf

Exploring the lush woodlands of the county is a tranquil treat at any time of the year. Spring carpets the woodland floor with primroses, wood anemones, violets and bluebells, whilst the low autumnal sun sets their leafy tints of gold and red ablaze. Many of these broadleaved woodlands are native, having grown here naturally for centuries. A rich variety of wildlife has established under the quiet protection of their eaves. Luxuriant mosses and ferns provide an emerald backdrop for nocturnal badgers, whilst small gangs of long tailed tits dart through the high canopy. Look out also for other striking regulars such as woodpeckers, treecreepers, sparrowhawks and kestrels.

Mae darganfod coedlannau toreithiog y sir yn bleser tawel ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Yn y gwanwyn bydd llawr y goedlan yn garped o friallu, blodau'r gwynt, fioledau a chlychau'r gog. Yn yr hydref bydd yr haul gwan yn cynnau lliwiau aur a choch y dail. Coed brodorol yw llawer o'r coedlannau llydanddail hyn a fu yma'n tyfu'n naturiol ers canrifoedd. O dan warchodaeth y dail ymsefydlodd amrywiaeth helaeth o fywyd gwyllt. Daw'r moch daear allan yn y nos ymhlith gwyrddni'r mwsogl a'r rhedyn a bydd y titw cynffon hir yn gwibio drwy ganopi uchel y coed. Chwiliwch am yr adar arferol fel cnocell y coed, y dringwr bach, a'r hebog.

# Flintshire's landscapes

## Limestone



Bryn Alyn



Tortoiseshell  
*Iâr fach amryliw*

Many millennia ago, a warm sea full of tiny crustaceans covered Flintshire. Our grey limestone is made of the compressed shells of these creatures. Look for their fossilised remains in the exposed rock faces.

Limestone is soft and full of cracks and holes, so weathers easily. The caves, rocky outcrops and cliffs of Loggerheads, Ffrith and Prestatyn Hillside are the result. Bizarre limestone pavement forms where rain water has dissolved away cracks and joints in the rock. Explore these at Loggerheads and Bryn Alyn. Watch out also along the River Alyn, where some stretches seem to dry up completely as its waters vanish underground through cracks or swallow holes in the ground.

Look out for the rich variety of wildflowers that thrive in colourful abundance on the thin limestone soils during the summer months. They provide food for a myriad of butterflies and other insects, and make our limestone uplands rich in wildlife.



# Calchfaen



Harebell  
*Clychau'r bugail*



Burnet moth  
*Gwyfyn bwrnet*



Pyramidal orchid  
*Tegeirian bera*

Filoedd lawer o flynyddoedd yn ôl roedd Sir y Fflint o dan fôr o ddŵr cynnes oedd yn llawn o anifeiliaid bach cramennog. Cregyn cywasgedig y creaduriaid hyn yw'r calchfaen llwyd sydd ar ein tir. Chwiliwch am eu holion ffosiledig ar wynebau agored y creigiau.

Am fod y garreg galch yn feddal ac yn llawn holltau, cafodd ei threulio gan y tywydd gan ffurfio ogofeydd a chlogwyni yn Loggerheads, y Ffrith a Bryn Prestatyn. Ffurfodd palmentydd calchfaen hynod ble mae'r dŵr glaw wedi toddi cafnau a holltau'r creigiau. Edrychwch amdanynt yn Loggerheads a Bryn Alun, a chwiliwch yr Afon Alun i weld rhannau ohoni wedi diflannu'n llwyr o dan y ddaear drwy graciau a llyncdyllau.

Edrychwch am yr amrywiaeth helaeth o flodau gwyllt sy'n ffynnu ar y pridd

calchfaen tenau yn ystod yr haf. Mae'r blodau'n fwyd i fyrdd o loynnod byw a phryfed eraill sy'n cyfrannu at fywyd gwyllt cyforiog y mynydd calchfaen.

# Flintshire's landscapes

## Rivers / Afonydd



Loggerheads



Dipper  
Trochwr

Naturally sloping from the high Clwydians to the sea, Flintshire is a county of fast flowing streams in wooded valleys. Explore the banks of the fast flowing River Alyn or Wepre Brook, where you may see the quick darts of dippers and grey wagtails, or even kingfishers as they feed on insects and small fish.

The summer air above our wetlands is alive with colourful dragonflies and damselflies. White flowers of water-crowfoot float on calm waters fringed with yellow flag iris and meadowsweet. Rare great crested newts thrive in many local ponds, and chase their insect prey in the surrounding grasslands by night.

Am fod Sir y Fflint yn goleddu o Fryniau uchel Clwyd i'r môr mae ynddi lawer o nentydd cyflym mewn dyffrynnoedd coediog. Dewch i archwilo glannau Afon Alun neu Nant Gwepra a gweld bronwen y dŵr a'r siglen lwyd yn gwibio neu'r glas y dorlan yn bwydo ar bryfed a physgod bychain.

Yn yr haf mae ein gwlypdiroedd yn ferw o weision y neidr a mursennod. Bydd blodau gwynion crafanc-y-dŵr yn nofio ar wyneb llyfn y dŵr, ac iris felen ac erwain yn blodeuo ar y glannau. Mewn nifer o'r llynnoedd lleol bydd y fadfall ddŵr gribog yn ffynnu gan hela'r pryfed yn y nos ar y glaswelltiroedd sydd o'i chwmpas.



# Farmland / Tir Amaeth



Skylark  
Ehedydd



Buttercup meadow  
Dôl blodau'r menyf

Our fertile soils have long been cultivated. Over three quarters of the county is agricultural and farmed by communities who have been the custodians of our rural landscape for generations. Verdant green pastures roll from the rough uplands to the shores of the Dee, well clipped by the constant grazing of sheep, cattle and horses. Flower filled meadows, edged by thick hedges and fringed with poppies and harebells are a true summer delight. Fragrant honeysuckle and dog rose clamber across fenceposts and old gates. Traditional stone walls give shelter to our smaller wildlife, whilst hares, lapwings and the now rare skylark enjoy the cover of rougher grassland.

Bu pobl wrthi'n trin ein pridd cyfoethog ers oesoedd lawer. Mae dros dri chwarter y sir yn dir amaethyddol sy'n cael ei amaethu gan gymunedau a fu'n gwarchod ein tirwedd cefn gwlad ers canrifoedd. Mae dolydd gwyrdd y llethrau'n rholio i lawr o'r mynydd garw tua glannau Afon Dyfrdwy ac mae'r defaid, y gwartheg a'r ceffylau'n cadw'r glaswellt yn fyr. Yn yr haf mae'r dolydd yn llawn blodau, a gwaelodion y gwrychoedd trwchus yn doreithiog o flodau gwyllt fel y pabi a chlych yr eos sy'n rhoi pleser di-ben-draw. Bydd gwyddfïd peraroglus a rhosyn gwyllt yn dringo dros byst ffensys a hen giataiu. Yn y waliau cerrig traddodiadol bydd yr anifeiliaid gwyllt bach yn cael noddfa a bydd ysgyfarnogod, cornicyllod ac ehedyddion, sy'n brin erbyn hyn, yn mwynhau lloches y glaswelltir garwach.

# Flintshire's landscapes

## Estuary / Aber



Redshank  
*Pibydd coesgoch*

The Dee Estuary is an internationally important destination for huge numbers of migrating birds that over-winter here from September to April each year. Spectacular flocks of oystercatcher, dunlin, and knot fly here from Northern Europe to avoid the desperately cold Arctic winter. Redshank and skylark breed on the inner marshes and shingle banks. The Dee's nutrient-rich mudflats are full of tiny shellfish that provide an abundant food source for the birds. Protected by an international agreement made at the Ramsar Convention, the estuary is a treasure-trove for wildlife watchers, from the foxes that prowl the marshes, to the seal colony at its mouth.

Lle pwysig yn fyd-eang yw aber Afon Dyfrdwy am fod nifer fawr o adar mudol yn gaeafu yma o fis Medi i fis Ebrill bob blwyddyn. Bydd y bиден fôr, pibydd y mawn a'r a phibydd yr aber yn heidio yma o Ogledd Ewrop rhag oerni ofnadwy gaeaf llwm yr Arctig. Mae'r pibydd coesgoch a'r ehedydd yn magu cywion ar y tir corslyd a'r mariandir caregog. Lleoedd rhyfeddol o faethlon yw traethellau Afon Dyfrdwy, yn ffynhonnell hael o fwyd i'r adar. Caiff yr aber ei gwarchod drwy gytundeb rhyngwladol a wnaed gan Gytundeb Ramsar, ac mae'n drysor o le i'r rhai sy'n hoffi gwyllo bywyd gwyllt fel llwynogod sy'n hela ar y corsydd a'r gytref o forloi sy wrth geg yr afon.



Little tern  
*Môr-wennol fach*



# Coast / Arfordir



Talacre



Natterjack toad  
Llyffant y twyni

Spectacular sand dunes and beaches fringe the northern coasts of the county from Gronant to Talacre. They provide both vital natural flood protection from the sea, and a home for the only breeding population of Natterjack toads in Wales, plus a colony of rare Little terns. Only the most specialised plants can grow in their dry, salty soils. Spiky leaved sea holly and the spikes of marram grass tolerate the constant sea breezes of this important conservation area. Wander to the famous 17th century lighthouse on award winning beaches at low tide, with spectacular views of the Wirral and North Wales coastlines.

Ar hyd ymylon glannau môr gogledd y Sir o Ronant i Dalacre gwelir y twyni tywod a'r traethau anhygoel. Dyma amddiffynfeydd naturiol rhag lliifogydd y môr a chartref i'r unig boblogaeth o Lyffant y twyni sy'n magu yng Nghymru, yn ogystal â nythfa o Forwenoliaid prin. Y planhigion mwyaf arbenigol yn unig sy'n gallu tyfu yn y pridd sych, hallt hwn. Bydd celyn y môr gyda'i ddail pigog a'r moresg yn gallu goddef gwynt di-ball y môr yn yr ardal gadwraeth bwysig hon. Pan fo'r llanw ar drai, gallwch grwydro i'r goleudy enwog o'r 17eg ganrif ar draws draethau a enillodd wobrau a cheir yma olygfeydd rhyfeddol o lannau môr Cilgwi a Gogledd Cymru.

# Flintshire's Heritage

## Frontier Country



Moel Arthur



Trimley Hall, Llanfynydd  
Plas Trimley, Llanfynydd

### Border Lands

Flintshire is remarkably rich in historical remains, simply because it has been frontier country for centuries. Strategically placed Iron Age hillforts, such as Penycloddiau and Moel y Gaer, dominate the skyline of the Clwydians and Halkyn Mountain.

The Romans marched through the area for more than three hundred years, leaving numerous remains.

Parts of Offa's and Wat's Dykes can still be seen. These once massive earth banks and ditches were constructed by the Saxons in the 8th century to mark the boundary with Wales.

Flintshire is dotted with castles built during the ongoing power struggle between the Welsh princes and

Norman kings. Ewloe and Caergwrle were Welsh castles but Flint and Hawarden were Norman. Imposing Flint Castle was the first of Edward I's string of castles along the Welsh coast, built during his first onslaught into Wales in 1277. It was impregnable and, although besieged, was never taken, unlike Hawarden that was captured in 1282.

Flintshire was important spiritually too. St Winefride's Well was one of the most revered places of Christian pilgrimage in Europe and the now ruined Basingwerk Abbey was wealthy and influential. The picturesque village churches and chapels bear testament to the key role religion played in everyday life.



# Tir y Gororau



Caergwrle Castle  
Castell Caergwrle



St Winefride's Well  
Ffynnon Gwenfrewi

## Y Gororau

Mae Sir y Fflint yn sir ryfeddol o gyfoethog o ran olion hanesyddol am iddi fod yn wlad y gororau ers canrifoedd. Ar Fryniau Clwyd a Mynydd Helygain saif Ceyrydd Oes yr Haearn fel Penycloddiau a Moel y Gaer yn drawiadol yn erbyn yr awyr.

Bu'r Rhufeiniaid yn gorymdeithio drwy'r ardal am fwy na thair canrif gan adael nifer fawr o'u holion.

Gellir gweld rhannau o Glawdd Offa a Chlawdd Wat hyd heddiw. Y Saeson a greodd y cloddiau a'r ffosydd anferth hyn yn yr wythfed ganrif i nodi'r ffin gyda Chymru.

Mae Sir y Fflint yn frith o hen gestyll a godwyd yn ystod y brwydro am rym a fu rhwng tywysogion Cymru a Brenhinoedd y Normaniaid. Roedd Cestyll Ewloe a Chaergwrle'n gestyll Cymreig ond rhai

Normanaidd oedd Fflint a Phenarlâg. Castell mawreddog y Fflint oedd y cyntaf o gadwyn o gestyll a gododd y Brenin Iorwerth I ar hyd glannau môr Cymru. Adeiladwyd Castell y Fflint yn ystod ymosodiad 1277 ar Gymru. Roedd yn gastell hollol gadarn ac er iddo fod o dan warchae nis cymerwyd erioed. Fel arall fu hanes castell Penarlâg a gipiwyd yn 1282.

O ran y bywyd ysbrydol hefyd, mae Sir y Fflint yn bwysig. Roedd pererindod i Ffynnon Gwenfrewi yn un o'r rhai a barchwyd fwyaf ymhlith holl bererindodau Cristnogol Ewrop. Roedd Abaty Dinas Basing yntau'n gyfoethog ac yn ddylanwadol dros ben. Saif eglwysi a chapeli tlws y pentrefi'n dyst i'r rhan bwysig a fu i grefydd ym mywyd bob dydd.

# Flintshire's Heritage

## Discover our Villages



Cilcain



Flintshire has many charming villages for you to discover and enjoy as part of your walking day. Most have thriving local shops and inns, and their buildings reflect a wealth of local history and architecture.

Some of our settlements are well over 900 yrs old and are mentioned in the Domesday Book of 1085. Many are now fascinating conservation areas which range from Edward I's strongholds, such as Caerwys; to estate villages, such as Llanasa and Hawarden; and to places with strong monastic associations, such as Holywell and Pantasaph. Some also lie nestled within the picturesque Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty, such as Gwaenysgor

and Cilcain. In addition, the London to Holyhead post road passed through Northop, Caerwys and Ysceifiog. To this day they retain buildings that were once 17th and 18th century coaching inns.

Two local rocks have been used in many of the older buildings. Soft, grey limestone is plentiful in the county, and is commonly used in Cilcain, Nannerch and much of Halkyn. Whitford's church and much of Llanasa was built with an attractive yellow sandstone, quarried from northern Flintshire.



# Darganfod ein Pentrefi



Halkyn Church  
Eglwys Helygain



Llanasa

Ar eich teithiau cerdded drwy Sir y Fflint fe dewch ar draws lawer o bentrefi swynol i'w mwynhau. Yn y mwyafrif ohonynt cewch siopau lleol, tafarnau ffyniannus ac adeiladau sy'n adlewyrchu cyfoeth o hanes lleol.

Mae nifer o'n haneddiadau ymhell dros 900 oed a cheir cyfeiriad at rai yn The Domesday Book, 1085. Mae llawer ohonynt yn leoedd cadwraeth diddorol erbyn hyn sy'n amrywio o gadarnleoedd lorwerth I, fel Caerwys; i bentrefi stadau fel Llanasa a Phenarlâg; i leoedd sydd â thraddodiadau mynachaid cryf fel Treffynnon a Phantasaph. Mae rhai'n gorwedd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, fel Gwaenysgor a Chilcain. Rhed ffordd

dyrpeg Llundain i Gaerdybi drwy Laneurgain, Caerwys ac Ysgeifiog. Hyd heddiw mae yma adeiladau a oedd yn dafarnau'r goets fawr yn ystod yr 17eg a'r 18fed ganrif.

Codwyd llawer o'r hen adeiladau gan ddefnyddio dau fath o graig leol. Mae digonedd o'r garreg lwyd feddal yn y Sir ac fe'i defnyddid yn gyffredin yng Nghilcain, Nannerch a Helygain. Codwyd Eglwys Chwitffordd a rhan helaeth o Eglwys Llanasa o dywodfaen melyn deniadol a gloddiwyd yng ngogledd Sir y Fflint.

# Flintshire's Heritage

## An Industrial Past



Lower Cotton Mill, Greenfield  
*Y Felin Gotwm Isaf, Maesglas*



The underlying rocks and the navigable Dee Estuary brought industry and wealth to rural Flintshire.

Rich veins of lead, silver and zinc within Halkyn's limestone were mined intensively, leaving the scars of shafts, spoil and old roads on its landscape. Long-disused limekilns once turned the rock itself into a useful fertilizer.



Copper, brought mainly from Anglesey, combined with power from a fast stream and access to the coast, provided the impetus for Greenfield Valley. It quickly became the cradle of the Industrial Revolution in North Wales, with mills producing metal wire, cotton, brass pots and pans.

Valuable coal and oil deposits at Point of Ayr, Coed Talon and Llanfynydd gave rise to a local network of railways and factories, including the magnificent viaducts at Ffrith and Cefn-y-bedd.

Thick deposits of clay were found under Knowle Hill at Buckley, upon which grew a successful pottery and brick-making industry. Millions of Buckley bricks have been exported far and wide from the now quiet quaysides of the Dee.

Many of the mills, factories and brickworks have long gone but reminders of this fascinating industrial past can still be found in the heart of our now largely rural county.



# Y Gorffennol Diwydiannol



Waen Brodlas limekilns, Halkyn  
Odynnau calch Waun Brodlas, Helygain



Oherwydd y creigiau sydd o dan y ddaear ac Aber Afon Dyfrdwy sy'n fordwyol, daeth diwydiant a chyfoeth i gefn gwlad Sir y Fflint.

Bu cloddio dwys ar wythiennau cyfoethog o blwm, arian, a sinc o fewn calchfaen Helygain, gan adael creithiau'r siafftau, y tomenni sbwriel a'r hen ffyrdd ar y dirwedd. Mewn odynnau calch, nas defnyddiwyd ers talwm, roedd y graig ei hunan yn cael ei throï'n wrtaith defnyddiol.

Cyrchwyd y rhan fwyaf o'r copr o Fôn a gan fod yma nant gyflym a mynediad hawdd i lan y môr dyma'r ysgogiad ar gyfer datblygu Dyffryn Maesglas. Cyn hir yr ardal hon oedd crud Chwyldro Diwydiannol Gogledd Cymru gyda'r melinau'n cynhyrchu gwifren fetel, cotwm, padelli a llestri pres.

Yn sgil cloddio'r gwythiennau glo gwerthfawr yn y Parlwr Du, Coed Talon a Llanfynydd cododd rhwydwaith o reilffyrdd a ffatrioedd gan gynnwys pontydd cario dŵr rhyfeddol yn y Ffrith a Chefn-y-bedd.

Darganfuwyd dyddodion o glai o dan Knowle Hill ym Mwcle ac ar hwn tyfodd diwydiant llwyddiannus y llestri a'r briciau. Allforiwyd miliynau o frics ymhell ac agos o lanfeydd Afon Dyfrdwy, sydd bellach mor dawel.

Diflannodd llawer o'r melinau, y ffatrioedd a'r gweithfeydd brics ers talwm iawn ond gwelir olion difyr y diwydiant hyd heddiw yng nghanol ein sir sydd bellach mor wledig.

1

# Caerwys – Ysceifiog

## Woodland, lakes and rolling farmland

**Distance:** 8 km / 5 miles

**Time:** Allow 2.5 – 3 hrs

**Parking:** In Caerwys Square (SJ129729) and roadside

**Grade:** Moderate, many stiles, can be slippery in places

**Facilities:** Pubs in Caerwys, Babell and Ysceifiog, shops and toilet in Caerwys

**Livestock:** Lots of sheep and cattle

## Coedlannau, llynnoedd a thir amaeth bryniog

**Pellter:** 8 km / 5 milltir

**Amser:** Caniatáu 2.5 – 3 awr


**Parcio:** Sgwâr Caerwys (SJ129729) ar ochr y ffordd

**Graddfa:** Cymedrol, llawer o gamfeydd, gall fod yn llithrig mewn rhannau

**Cyfleusterau:** Tafarnau yng Nghaerwys, Babell ac Ysceifiog, siopau a thoiledau yng Nghaerwys

**Da Byw:** Llawer o ddefaid a gwartheg

**Waymarking / Arwyddion:**



## The Walk

1. From square in Caerwys, turn down Water Street, passing Royal Oak on L. At staggered crossroads continue ahead, signed Trout Farm. Go into fishery, passing buildings on L. Continue over stile ahead, then turn L onto footpath, signed Babell. Climb steep steps.
2. At woodland edge, cross stile ahead. Walk across field to small stile in middle of opposite fence. Continue in same direction across two more fields to road, then turn R and immediately L onto track. Beyond cottage, turn R where path forks. Continue for 800m, passing cottage on L where track widens (ignore path on L here). Where track bears R, take footpath L. Cross hidden stile into field, then walk across field to stile in opposite hedge. Continue along RHS of next field, bearing L thro' scrub at far end to cross metal stile in hedge. Walk diagonally L onto path and follow to road. Turn R along road, R again at crossroads, signed Ysceifiog and Afonwen, then continue along road to T junction.
3. Cross road and walk thro' car park of Black

Lion Inn. Go thro' gate at far end of car park. Continue ahead across fields following RH field edge, passing a large farm on R. Continue in same direction, crossing old stile, until reach small cottage. Go thro' gate and follow cottage drive to road.

4. Turn L, then 10m later turn R uphill and L at next road junction. Turn R onto track opposite "Fairholme". Continue ahead where cottage drive bears R. Cross stile and walk across next field following R fenceline. Cross next stile into woodland. Follow narrow woodland path to R for 600m, descending to path junction. Take R fork, signed Caerwys.

*To detour to Ysceifiog, turn L and follow path down to lakes. Cross footbridge and walk up steep hillside. Cross stile at top and walk on narrow path between houses. Cross next stile and turn L to explore village, before retracing your steps to Caerwys sign.*

After 15m cross stile and cross field to far L corner. Cross next stile and follow path along R hedgerow towards farm. Go thro' gate and walk past farmhouse on drive. Go thro' gate,





# Caerwys – Ysgeifiog

turn R and cross stile on L. Walk diagonally R across field to stile. Cross next field and stile and continue to road.

**5.** Turn R along road. After 200m turn L over stile beside Marian Cocaldiad. Walk ahead across field and cross another stile by gate. Half way along next field, cross stile on L. Turn R then walk diagonally L across large field. At bottom of hill go thro' hidden gate and follow path down RHS of field beside woodland. Cross stile into woodland and follow path with trout pools on L. Turn L over stile and walk thro' fishery to retrace your steps back to Caerwys Square.

## Y Daith Gerdded

**1.** O'r sgwâr yng Nghaerwys, trowch i lawr Ffordd y Dŵr, gan fynd heibio tafarn y Royal Oak ar y LlCh. Wrth y groesffordd LlCh. Ymlaen dros y gamfa o'ch blaen, troi i'r Ch i'r llwybr (arwydd Babell). Dringo'r grisiau serth.

**2.** Ar ymyl y goedlan, croesi'r gamfa sydd o'ch blaen. Cerdded ar draws y cae i gamfa fechan sydd yng nghanol y ffens gyferbyn. Ymlaen i'r un cyfeiriad dros ddau gae arall ac i'r ffordd, yna troi i'r Dd ac i'r Ch yn union wedyn i llwybr llydan. Y tu hwnt i'r bwthyn, troi i'r Dd ble mae'r llwybr yn fforchio. Ymlaen am tua 800m, gan fynd heibio'r bwthyn ar y LlCh ble mae'r llwybr yn lledu (anwybyddu'r llwybr ar y LlCh yma). Pan fydd y llwybr yn gwyrto i'r Dd, cymryd y llwybr i'r Ch. Croesi camfa gudd i'r cae, yna cerdded yn groesgornel i'r Dd ar draws y cae ac i gamfa sydd yn y gornel dde bellaf. Ymlaen ar hyd LIDD y cae nesaf, gwyrto i'r Ch drwy'r llwyni yn y pen draw a chroesi camfa fetel yn y gwrych. Cerdded yn groesgornel Ch i'r llwybr a'i ddilyn i'r ffordd. Troi i'r Dd ar hyd y ffordd, i'r Dd eto ar y groesffordd (arwydd Ysgeifiog ac Afonwen), yna ymlaen ar hyd y ffordd i'r gyffordd T.

**3.** Croesi'r ffordd a cherdded drwy faes parcio'r Black Lion. Ymlaen drwy'r giât sydd ar ben pellaf y maes parcio. Syth ymlaen dros y caeau gan ddilyn Ll Dd ymyl y cae, heibio fferm fawr ar y LIDD. Ymlaen i'r un cyfeiriad, croesi hen gamfa, nes dod at fwthyn. Ewch drwy'r giât a dilyn dreif a bwthyn i'r ffordd.

**4.** Troi i'r Ch, yna ymhen 10m troi i'r Dd i fyny'r bryn ac i'r Ch ar y gyffordd nesaf yn y ffordd. Troi i'r Dd ar y llwybr llydan sydd gyferbyn â "Fairholme". Ymlaen eto ble mae dreif y bwthyn yn gwyrto i'r Dd. Croesi'r gamfa a cherdded ar draws y cae nesaf gan ddilyn y ffens LIDD. Croesi'r gamfa nesaf i'r coed. Dilyn llwybr cul yn y coed i'r Dd am tua 600m, gan ddisgyn i'r gyffordd yn y llwybr. Cymryd y



Marsh marigolds  
Melyn y gors

fforch Dd, arwydd Caerwys.

*I fynd i Ysgeifiog, troi i'r Ch a dilyn y llwybr i lawr i'r llynnoedd. Croesi'r bont a cherdded i fyny'r bryn serth. Croesi'r gamfa ar ben y bryn a cherdded ar hyd y llwybr cul rhwng y tai. Croesi'r gamfa nesaf a throi i'r Ch i weld y pentref cyn mynd yn ôl yr un ffordd i arwydd Caerwys.*

Ar ôl 15m, croesi'r gamfa a chroesi'r cae i'r gornel dde bellaf. Croesi'r gamfa nesaf a dilyn y llwybr wrth ymyl LIDD y gwrych tua'r fferm. Mynd drwy'r giât a cherdded heibio ffermdy si'r dreif. Ewch drwy'r giât, troi i'r Dd a chroesi camfa ar y LlCh. Cerddwch yn groesgornel Dd dros y cae nesaf ac at gamfa. Croesi'r cae nesaf a'r gamfa ac ymlaen i'r ffordd.

**5.** Troi i'r Dde ar hyd y ffordd. Ar ôl 200m troi i'r Ch dros y gamfa yn ymyl Marian Cocaldiad. Cerdded yn syth ymlaen ar draws y cae a chroesi camfa arall wrth y giât. Hanner ffordd ar draws y cae nesaf, croesi'r gamfa ar y LlCh. Troi i'r Dd ac yna cerdded yn groesgornel Ch ar draws cae mawr. Ar waelod y cae, ewch drwy'r giât gudd a dilyn y llwybr i lawr LIDD'r cae yn ymyl y goedlan. Croesi'r gamfa i'r coed a dilyn y llwybr gan gadw'r Llynnoedd Brithyll ar eich LlCh. Troi i'r Ch dros y gamfa a cherdded drwy'r bysgodfa gan ddilyn eich camau'n ôl i Sgwâr Caerwys.



Moorhens nest on Ysgeifiog Lakes  
Bydd yr iâr ddŵr yn nythu ar lynnoedd Ysgeifiog

## Caerwys

Peaceful Caerwys is reputedly the smallest town in Wales, granted a Royal Charter by Edward I, and once one of the three most important towns in Flintshire! It was at the hub of drovers routes and its livestock markets were renowned.

## Ysgeifiog

17th century Ysgeifiog was a busy village situated on the main road from Chester to Denbigh. Packhorses, laden carts and stage coaches all regularly passed through.

Ysgeifiog lakes are man-made, created by the Earl of Denbigh in 1904 for fishing. Look for nesting coots, moorhens and mallard or dragonflies skimming the water in summer.

## Caerwys

Caerwys yw tref leiaf Cymru. Derbyniodd Siarter Frenhinol gan y brenin Iorwerth I. Ar un cyfnod roedd hi'n un o dair tref bwysicaf Sir y Fflint, yn ganolbwynt ffyrdd y porthmyn a'i marchnadoedd da byw yn rhai enwog iawn.

## Ysgeifiog

Lle prysur iawn oedd Ysgeifiog yn yr 17eg ganrif. Lleolir y dref ar y ffordd fawr o Gaer i Ddinbych. Arferai'r ceffylau pwn, y troliau llawn a'r goets fawr deithio drwy Ysgeifiog yn rheolaidd.

Crewyd Llynnoedd Ysgeifiog gan Iarlwr Dinbych yn 1904 ar gyfer pysgota. Edrychwch am gwtieir, ieir dŵr a hwyaid yn nythu, neu'r gwas y neidr uwchben y dŵr yn yr haf.



Ysgeifiog Church  
Eglwys Ysgeifiog

2 3

# Ffynnongroyw



## Native woodland and farmland

**Distance:** Long route 7.4 km / 4.6 miles  
Short route 5.9 km / 3.7 miles

**Time:** Long route 2.5 – 3 hrs, short route 1.5 – 2 hrs

**Parking:** Limited parking is available before you cross the stream at Garth Mill (SJ139818) – please do not park at the public house unless you are a patron.

**Grade:** Long route – moderate, short route – easy, stiles

**Facilities:** Pubs and post office in Ffynnongroyw

**Livestock:** Sheep & cows

## Coedlannau brodorol a thir amaeth

**Pellter:** Ffordd hir: 7.4 km / 4.6 milltir  
Ffordd fer 5.9 km / 3.7 milltir

**Amser:** Ffordd hir 2.5 – 3 awr, Ffordd fer 1.5 – 2 awr


**Parcio:** Ychydig o leoedd parcio cyn croesi'r nant ym Melin Garth (SJ139818) – peidiwch â pharcio wrth y dafarn oni bai ichi fod yn gwsmer yma.

**Graddfa:** Ffordd hir – cymedrol, ffordd fer – hawdd, camfeydd

**Cyfleusterau:** Tafarndai a swyddfa'r post yn Ffynnongroyw

**Da byw:** Defaid a gwartheg

**Waymarking / Arwyddion:**



## The Walk

**1.** Cross Afon Garth by footbridge then follow path on RHS of mill. Cross another bridge and continue up main track for 350m. At end of houses enter Coed y Garth via staggered barriers (info board on RHS).

**2.** Continue ahead then R at marker post. Follow path crossing 4 short sections of wooden walkway passing carved lizard bench on RHS. Continue ahead then up steps to bridge. Cross bridge and continue uphill (can be muddy) crossing 2 further bridges. After third bridge bear diagonally L up long flight of steps known as 'The Steps of Heaven'. Cross stile and exit woods.

**3.** Turn R and follow field boundary for 50m then turn L uphill and head to L of copse of trees, which circle an old mineshaft, to arrive at gate/stile on RHS. Cross stile and small sleeper bridge to join an obvious track. Continue on track to Berth-y-Maen cottage.

From here you have a choice of route;

### Short route: Walk 3

**4a.** At red gate turn L to follow lane for 700m

to Trelogan-uchaf and continue ahead. After 500m turn R towards Wern Farm (c.1619). At barn turn L leaving farmhouse on your RHS and continue along drive for 500m. Turn L onto road on outskirts of Tre-Mostyn.

### Long route: Walk 2

**4b.** At red gate continue ahead for 650m on road, passing Trelogan Farm, towards black farm building on L, then on to road junction.

**5.** At junction turn R and then L within 175m, towards Ffrith Cottage. Pass bungalows on R and L. Continue uphill on track to eventually cross stile/gate. Continue ahead until last field post on LHS then go diagonally R. Cross field to another gate, continue ahead on green lane (ignoring paths on L & R). After 800m from Trelogan pass marker post on LHS. 500m beyond this marker turn sharp L at path crossroads and descend steeply with old wall on RHS. Follow track down to Pentreffynnon Cottage. Continue past cottage to green gate. Turn R onto road and follow for 800m to Wern Farm drive on LHS.

### Short route rejoins here

**6.** Continue on lane for 70m then turn L over





# Ffynnongroyw

stile/gate by finger post before reaching Tre-Mostyn. Follow LH field boundary crossing 2 further stiles/gates. Then bear diagonally L along sunken lane to gate stile.

**7.** Cross stile and continue ahead on dirt track. Within 100m branch L through wooden gate into woods and descend down track. Continue ahead following the contour. At path fork take LH fork as indicated, crossing small stream after 100m (can be muddy). Before long you will see Garth Mill again. Go down steps then bear L around back of mill. Turn R and retrace your steps over bridge back to car park.

## Y Daith Gerdded

**1.** Croesi'r Afon Garth dros y bompren a dilyn y llwybr ar LIDD'r felin. Croesi pont arall a mynd ymlaen i fyny'r prif llwybr am 350m. Ar ddiwedd y tai, mynd i mewn i Goed y Garth drwy'r bariau rhwystro (bwrdd gwybodaeth ar y LIDD).

**2.** Dal ymlaen a mynd i'r Dd wrth yr arwyddbost. Dilyn y llwybr gan groesi 4 o rannau byr ar y llwybr pren a mynd heibio mainc y fadfall gerfiedig ar y LIDD. Dal ymlaen ac i fyny'r grisiau i'r bont. Croesi'r bont ac ymlaen i fyny'r bryn (gall fod yn fwdlyd) croesi 2 bont arall. Ar ôl y drydedd bont, gwyro'n groes i'r Ch i fyny grisiau hir a elwir 'Grisiau tua'r Nefoedd'. Croesi'r gamfa ac allan o'r coed.

**3.** Troi i'r Dd a dilyn ffin y cae am 50m yna throi i'r Ch i fyny'r bryn gan anelu i'r Ch o lwyn o goed sy'n gylch o gwmpas hen siafft fwyngloddio, cyraedd camfa/giât ar y LIDD. Dros y gamfa a phont fechan o sliperi rheilffordd i ymuno â llwybr amlwg. Ymlaen ar hyd y llwybr hwn i fwthyn Berth-y-Maen.

O'r fan hyn, cewch ddewis un o ddwy ffordd;

### Llwybr byr: Taith 3

**4a.** Wrth y giât goch, troi i'r Ch a dilyn y lôn am 700m i Drelogan Uchaf yna parhau ymlaen. Ar ôl 500m troi i'r Dd tuag at Fferm y Wern (c.1619). Wrth yr ysgubor, troi i'r Ch gan adael y tŷ fferm ar eich LIDD a pharhau ar hyd y dreif am 500m. Troi i'r Ch ac i'r ffordd ar gyrion Tre Mostyn.

### Llwybr hir: Taith 2

**4b.** Wrth y giât goch, mynd ymlaen am 650m ar y ffordd, heibio Fferm Trelogan, tuag at adeilad fferm du sydd ar y LICH ac i'r gyffordd.

**5.** Ar y gyffordd, troi i'r Dd ac yna i'r Ch o fewn 175m, tuag at Fwthyn y Ffrith. Mynd heibio i fyngalo ar y LICH. Ymlaen i fyny'r allt ar llwybr gan groesi camfa/giât o'r diwedd.

Ymlaen i'r postyn diwethaf ar y LICH yna mynd yn groesgornel i'r Dd. Croesi cae i giât arall, ymlaen i lôn werdd (anwybyddu'r llwybrau ar y Ch a'r Dde). Ymhen 800m ar ôl Trelogan ewch heibio'r arwydd postyn ar y LICH. Ymhen 500m ar ôl yr arwydd hwn, troi'n sydyn i'r Ch ar gyffordd y llwybr a disgyn yn serth gan gadw'r hen wal ar y LIDD. Dilyn y llwybr llydan i lawr i Fwthyn Pentreffynnon. Cerdded ymlaen a heibio'r bwthyn i'r giât werdd. Troi i'r Dd i'r ffordd a dilyn am 800m i dreif Fferm y Wern sydd ar y LICH.



Great spotted woodpecker  
Cnocell fraith fwyaf

### Ail-ymuno â'r llwybr byr yn y fan yma

**6.** Parhau ar y lôn am 70m ac yna troi i'r Ch dros gamfa/giât, sydd wrth yr arwyddbost cyn cyrraedd Tre-Mostyn. Dilyn ffin LICH y cae gan croesi 2 gamfa/giât arall. Yna gwyro i'r Ch yn groesgornel ar hyd lôn suddedig i'r giât/camfa.

**7.** Croesi camfa ac ymlaen ar hyd llwybr llwch. O fewn 100m, troi i'r Ch drwy giât bren ac i'r coed yna disgyn i lawr y llwybr. Cerdded ymlaen gan ddilyn y gyfuchlin. Pan fydd y llwybr yn fforchio, ewch ar y fforch Ch yn ôl yr arwydd, croesi'r nant fechan ar ôl 100m (gall fod yn fwdlyd). Cyn bo hir, bydd Melin y Garth yn y golwg unwaith eto. Ewch i lawr y grisiau ac yna gwyro i'r Ch a mynd y tu cefn i'r felin. Troi i'r Dd ac yn ôl ar hyd yr un llwybr dros y bont ac i'r maes parcio.



Dales Way developed in memory of Dale, a local teenager who loved the woodland and died in 2003. Look for the lizard waymarkers and commemorative bench.

Datblygodd Llwybr Dale er cof am Dale, bachgen ifanc a garodd y goedlan hon ac a fu farw yn 2003. Edrychwch am arwyddion y fadfall a'r fainc goffa.

*Garth Mill was built in 1743 and was in regular use for grinding grain for flour and cattle feed until the 1950's. It also produced feed for the pit ponies that worked underground at the Point of Ayr Colliery. The mill has since been renovated and is now a welcoming inn.*

*Trelogan Hall and the surrounding buildings were once the centre of local lead mining which started in the 17th Century.*

*Coed-y-Garth, owned by the Woodland Trust, contains the remains of a complex engineering system designed by Joshua Edisbury to drain the surrounding lead mines.*

*Adeiladwyd Melin Garth yn 1743. Roedd hi'n cael ei defnyddio'n gyson i falu ŷd i wneud blawd a bwyd anifeiliaid tan y 1950au. Roedd yn cynhyrchu bwyd i'r ceffylau pwll glo oedd yn gweithio o dan y ddaear yng Nglofa'r Parlwr Du. Cafodd ei hadnewyddu ac erbyn hyn mae'n dafarn groesawus.*

*Ar un adeg roedd Plas Trelogan a'r adeiladau o'i gwmpas yng nghanol ardal mwyngloddio a ddechreuodd yn y 17eg ganrif.*

*Mae Coed-y-Garth, o eiddo'r Ymddiriedolaeth Goedlannau, yn cynnwys olion system beirianyddiaeth gymhleth a luniwyd gan Joshua Edisbury i ddraenio'r mwyngloddiau cyfagos.*



Garth Mill  
Melin Garth

# Hawarden

## Historic village, woodland and farmland

**Distance:** 8 km / 5 miles

**Time:** 2 – 2.5 hrs

**Parking:** Tinkersdale public car park, Hawarden (SJ316657)

**Grade:** Easy

**Ten Minute Walk:** A disused tarmac road with lush woodland on both sides

**Facilities:** Pubs, café and shops in Hawarden

**Livestock:** Sheep and cattle

## Pentref hanesyddol, coedlannau a thir fferm

**Pellter:** 8 km / 5 milltir

**Amser:** 2 – 2.5 awr

**Parcio:** Maes parcio cyhoeddus Tinkersdale, Penarlâg (SJ316657)

**Graddfa:** Hawdd


**Taith gerdded 10 munud:** Hen ffordd darmac segur. Coedwigoedd o bobtu

**Cyfleusterau:** Tafarnau, caffï a siopau ym Mhenarlâg

**Da byw:** Defaid a gwartheg

**Waymarking / Arwyddion:** 

The Gladstone Monument  
*Cofadail o Gladstone*



## The Walk

1. From car park turn R uphill to reach fountain and T junction. Turn R onto Glynne Way then first L into Crosstree Lane (old lock-up on corner). Descend hill passing school. At junction with Ash Lane turn L thro' gate into churchyard. Go R around church to exit on opposite side. To R is St Deniol's Library (Gladstone Exhibition and Coffee Shop open to public. Tel 01244 532350 for details).
2. Walk along Church Lane to road. Turn L to cross busy road at pelican crossing. Turn R along road, passing St Deniol's on RHS. Take second L down Station Road. When road forks into Woodlands Court and The Wigdale continue ahead along tarmac footpath. Continue ahead, then R to pass under railway line, then immediately L.
3. Continue ahead crossing track to cross stile by gate then continue ahead between golf club greens. Continue along grass track as it bears sharp L towards farm. At gate, cross stile and continue ahead, passing pond at Oaks Farm. After 25m turn R by derelict barn

through open entrance then immediately L following LH field boundary up slope through 2 fields to cross stile. Go ahead for 75m then diagonally R to field boundary. Just before house turn L over stile. Then turn L and in 20m go thro' gate onto Ledsham Lane. Continue for 400m.

4. At T-junction turn L into Slack Road. Cross railway bridge then turn immediately R to cross stile then a second. Turn L and over next stile. Follow LH field boundary and cross stile by Thatch Cottages. Turn R, cross busy road then stile just before red corrugated barn. Follow path past barn then turn R over stile by gate then L up between 2 hedges. Cross stile next to open entrance then follow RH field boundary. Cross stile onto lane and continue ahead, down lane marked "No through road".

5. At end of road turn L through staggered entrance by gate to continue along tarmac path. Pass bridge over A55 on RHS and continue ahead thro' staggered entrance by gate. Continue down road passing Spinning Wheel Inn. Take next L onto lane marked Cherry Orchard Farm.





## Penarlâg

**6.** Within 20m cross stile by cattle grid then continue along road, passing entrance to Cherry Orchard House on LHS after 300m. After a further 400m pass some cottages on RHS. Continue ahead thro' metal gate. At woodland edge, cross stile by gate and continue ahead for 100m. Then turn L and almost immediately R. Continue on waymarked main track for 1.2 km.

**7.** Cross stile and continue along estate wall. Bear L where path forks. After 100m, at gate by 2 stiles, cross stile furthest from gate. After 50m cross stream, with remains of sluice gate on LHS. Soon after on R, is a ruined 18th century corn mill. The mill wheel and much of the machinery still remains. 75m beyond mill turn R up narrow path with handrail, to return to car park.



*Leopold Gate, entrance to Hawarden Castle. Park open daily throughout the year.*

*Giât Leopold, y fynedfa i Gastell Penarlâg. Y tiroedd ar agor bob dydd drwy'r flwyddyn.*

### Y Daith Gerdded

**1.** O'r maes parcio, troi i'r Dd ac i fyny'r allt i'r ffynnon a'r gyffordd T. Troi Dd i Glynne Way a'r 1af Ch i Crosstree Lane (hen garchar ar y gornel). I lawr a heibio'r ysgol. Ar gyffordd Ash Lane troi drwy'r giât ac i'r fynwent. I'r Dd o amgylch yr eglwys ac allan yr ochr arall. Mae Llyfrgell Coleg Sant Deiniol ar y LIDd (Arddangosfa Gladstone a siop goffi ar agor i'r cyhoedd. Tel 01244 532350)

**2.** Cerddwch ar hyd Lôn yr Eglwys i'r ffordd. Troi i'r Ch i groesi ffordd brysus wrth y groesfan Pelican. Troi i'r Dd ar hyd y ffordd, heibio Sant Deiniol ar eich LIDd. Cymerwch yr ail ar y Ch ac i lawr Ffordd yr Orsaf. Pan fydd y ffordd yn fforchio i Woodlands Court a The Wigdale ewch yn syth ymlaen ar hyd llwybr tarmac. Parhau'n syth ymlaen, yna i'r Dd a dan y lein rheilffordd, yna i'r Ch ar unwaith.

**3.** Dal ymlaen gan groesi'r llwybr llydan i groesi'r gamfa wrth y giât ac yna dal ymlaen rhwng lleiniau gwyrdd y clwb golff. Dal ymlaen ar hyd y llwybr glaswellt wrth iddo wyro'n siarp i'r Ch tua'r fferm. Wrth y giât, croesi'r gamfa ac ymlaen, heibio i'r llyn yn Oaks Farm. Ar ôl 25m troi i'r Dd wrth adfeilion ysgubor a thrwy fynedfa agored ac yna'n union i'r Ch gan ddilyn ffin y cae ar eich LICH ac i fyny'r llethr drwy 2 gae i groesi'r gamfa. Cerddwch yn syth ymlaen am 75m yna ewch yn groesgornel i'r Dd ac i ffin bellaf y cae. Yn union cyn cyrraedd y ty, troi i'r Ch a dros y gamfa. Yna trowch i'r Ch ac, mewn 20m, ewch drwy'r giât i Lôn Ledsham. Dal ymlaen am 400m.

**4.** Wrth y gyffordd T, troi i'r Ch i Slack Road. Croesi pont y rheilffordd ac yna troi ar unwaith i'r Dd i groesi un gamfa ac yna'r ail gamfa. Troi i'r Ch a dros y gamfa nesaf. Dilyn ffin LICH y cae a chroesi'r gamfa wrth Thatch Cottages. Troi i'r Dd, croesi'r ffordd ac yna'r gamfa yn union o flaen yr ysgubor dun goch. Dilyn y llwybr i ben draw'r ysgubor ac yna troi i'r Dd a thros y gamfa wrth y giât yna i'r Ch i fyny rhwng 2 wrych. Croesi'r gamfa nesaf i'r fynedfa agored yna dilyn ffin LIDd'r cae. Croesi'r gamfa i'r lôn a dal ymlaen i lawr y lôn ac arni'r arwydd "Dim ffordd drwodd".

**5.** Ar ddiwedd y ffordd, trowch i'r Ch drwy fynediad alldro a dal ymlaen ar hyd y llwybr tarmac. Bydd y bont dros yr A55 ar eich LIDd, ymlaen drwy fynediad alldro wrth y giât. Ymlaen i lawr y ffordd gan fynd heibio Tafarn the Spinning Wheel. Cymryd y nesaf ar y Ch i'r Lôn ag arni'r enw Cherry Orchard Farm.

**6.** O fewn 20m croeswch y gamfa wrth y grid gwartheg a dal ar hyd y ffordd gan fynd heibio'r mynediad i Cherry Orchard House ar eich LICH ymhen 300m. Ar ôl 400m eto, mynd heibio bythynnod ar eich LIDd. Dal ymlaen drwy'r giât fetel. Wrth ymyl y goedlan, croesi'r gamfa wrth y giât a dal ymlaen am 100m. Yna troi i'r Ch ac yna i'r Dd bron ar unwaith. Dal ar y llwybr sydd ag arwydd am 1.2 km

**7.** Dros y gamfa ac ymlaen ar hyd wal y stad. Gwyo i'r Ch ar y fforch. Ymhen 100m. wrth giât a 2 gamfa, croesi'r gamfa bellaf o'r giât. Ymhen 50 m croesi'r nant, bydd olion llifddor ar LICH. Ar y LIDd bydd melin flawd o'r 18fed ganrif gyda'r rhod a rhai o'r peiriannau'n dal yma. 75 milltir ar ol y felin trowch i'r Dd ar lwybr cul a chanllaw. Yn ol i'r maes parcio.

*Hawarden was the home of W. E. Gladstone, British Prime Minister for four terms. He introduced an Education Act and an Electoral Reform Act but failed to achieve home rule for Ireland.*

*Hawarden boasts two castles. The ruined 13th century castle was used by Edward I as a base for his invasion of Wales. It was captured by Dafydd, brother of Welsh Prince, Llywelyn ap Gruffudd, in 1282. In the 17th century it suffered severe damage during the Civil War when it was defended by the Parliamentary side.*


*The new castle was Gladstone's home after his marriage to Catherine Glynne, heiress to the Hawarden estate. The family still live there.*

*Roedd Penarlâg yn gartref i W. E. Gladstone, Prif Weinidog Prydain am bedwar tymor. Cyflwynodd ddeddf addysg a deddf diwygiad etholiadol, ond methodd â chael ymreolaeth i Iwerddon.*

*Mae dau gastell ym Mhenarlâg. Defnyddiodd brenin Lloegr, Iorwerth I y castell, a godwyd yn y 13ganrif, yn ganolfan ar gyfer ymosod ar Gymru. Cipiwyd y castell gan Dafydd, brawd y Tywysog Llywelyn ap Gruffudd yn 1282. Yn ddiweddarach dioddefodd yn arw yn ystod y Rhyfel Cartref pan roedd y milwyr Seneddol yn ei amddiffyn*

*Y castell newydd oedd cartref Gladstone ar ôl iddo briodi Catherine Glynne, etifeddes stad Penarlâg. Mae'r teulu'n dal i fyw yma.*

*St Deiniol's Church Eglwys Sant Deiniol*



5

# Hope Mountain

## Woodland, moorland, old quarries, superb views

**Distance:** 9.6 km / 6 miles

**Time:** Allow 2 – 2.5 hrs

**Parking:** Car park in Caergwrlle by Old Castle Inn (SJ360574) or Waun y Llyn (SJ286577)

**Grade:** Strenuous – undulating with many small ascents and descents, many stiles, can be muddy and slippery

**Facilities:** Pubs in Caergwrlle and Cymau.

**Livestock:** Lots of sheep and cattle

## Coedlan, rhostir, hen chwareli, golygfeydd gwych

**Pellter:** 9.6 km / 6 milltir

**Amser:** Caniatáu 2 – 2.5 awr


**Parcio:** Parcio ceir yng Nghaergwrlle wrth dafarn yr Hen Gastell (SJ360574) neu yn Waun y Llyn (SJ286577)

**Graddfa:** Egniol, i fyny ac i lawr gyda nifer o lwybrau'r dringo a disgyn, nifer o gamfeydd, gall fod yn llithrig

**Cyfleusterau:** Tafarnau yng Nghaergwrlle a Chymau

**Da byw:** Llawer o ddefaid a gwartheg

**Waymarking / Arwyddion:**



Old quarry  
Hen chwarel

## The Walk

**1.** Leave Caergwrlle car park by side exit, turn L and walk up lane. Turn L along Bryn Yorikin Lane, continuing thro' housing as it bears R and climbs uphill. At junction with Plas Y Bwl turn R along lane and soon after, turn L up steps and over stile. Walk up field, keeping to LHS and cross stile on RHS of wooden stable. Continue ahead over drive and stile. Walk up field along RHS. Cross stile and turn L along lane and then R down drive of Bryn Yorikin. Follow drive past houses and at Malt House turn R and follow grassy track around house. Go thro' gate and turn R onto footpath. Before stile turn sharp L and walk diagonally uphill along natural path. Continue into field and walk uphill to cross stile onto road. Turn L along road. Continue downhill for about 1km, ignoring lane joining from R. At T junction turn R then L onto footpath. Go down steps and walk around back of houses. Follow path with fence on R. At field edge turn R uphill towards cottage. Turn L over stone stile to cross yard of cottage and continue ahead along lane.

**2.** At road junction turn R and follow road, past houses. Bear L onto waymarked path into woodland. Continue ahead, ignoring path on L.

Where path leaves woodland keep to R, passing old quarry face on R. Follow path back into woodland. Cross stile and continue ahead across hillside keeping near LH fenceline. At fencepost by fallen tree continue ahead for 5m then turn L and walk down hillside, with hedge on LHS. Bear R at waymarker on post, meandering down to woods. Cross stile into woods. Turn R and follow woodland path over next stile. Continue along grassy path and thro' gate on L. Turn R over stepped stile then bear L down drive, passing disused quarry entrance on R. Continue ahead onto grassy path where drive hairpins L. Where path forks, take R path and continue climbing up hillside. Where path joins from R continue ahead. Approx 20m beyond path junction turn R into woodland. Follow path as it slowly climbs through woodland (ignore small path R). Path eventually bears R towards woodland edge. At field corner turn R and follow old stone wall uphill to cross stone stile. Walk along LHS of two fields, crossing stile and thro' gate beside 'Fairview' onto road.

**3.** Cross road and take track thro' gate bearing L to Ty Uchaf. Before house take signed path R thro' gate and follow path between trees. Thro' gate and continue ahead, ignoring path L. Thro'





# Mynydd yr Hob

another gate (white house ahead) then bear R and follow grassy path uphill. Continue ahead as path levels out. Go thro' gate/stile and continue ahead to another gate onto road.

**4.** Turn R along road and continue uphill. Go thro' small gate on L into Waun y Llyn Country Park car park. Follow clear path to viewpoint. From viewpoint take minor path descending down RH hillside, heading to stile. Cross stile and footbridge then stile opposite. Walk diagonally R across field to corner. Follow RH fence for 20m then bear L down hill. Continue descending L to gate/ cattle grid in far fence. Turn R thro' gate and continue along track to road.

**5.** Take road opposite downhill. After 250m turn L and follow minor road for 1km downhill towards Caergwrle. Where road bends L take signed footpath R, alongside Celyn Cottage. At wall corner turn L and follow woodland path behind housing for 500m, keeping old wall on L. Keep L where path forks, finally turning L to join lane. Turn L down lane to main road, then R back to car park.

## Y Daith Gerdded

**1.** Gadewch y maes parcio drwy'r allanfa ar yr ochr, trowch i'r Ch a cherdded i fyny'r ffordd. Ar y gyffordd T trowch i'r Ch ar hyd Lôn Bryn Yorkin, ewch ymlaen drwy'r tai wrth i'r ffordd wyro i'r Dd a dringo i fyny. Ar y gyffordd gyda Plas Y Bwl troi i'r Dd ar hyd y lôn ac yn fuan wedyn, troi i'r Ch i fyny'r grisiau a dros y gamfa. Cerdded i fyny'r cae gan gadw at y LlCh a chroesi'r gamfa wrth y stabl bren. Ymlaen wedyn gan groesi'r dreif a'r camfeydd. Cerdded i fyny'r cae ar y LLDd. Croesi camfa a throi i'r Ch ar hyd y lôn ac yna i'r Dd i lawr dreif Bryn Yorkin. Dilyn y dreif heibio'r tai ac, wrth Malt House, troi i'r Dd a dilyn y llwybr glaswellt o gwmpas y tŷ. Mynd drwy'r giât a throi i'r Dd i'r llwybr troed. Cyn dod at y gamfa troi'n llym i'r Ch a cherdded yn groesgornel i fyny'r bryn drwy goedlan ar hyd llwybr naturiol. Ymlaen i mewn i'r cae a dringo'n raddol i groesi camfa ac i'r ffordd. Troi i'r Ch ar y ffordd. Ymlaen ar i lawr am tua 1km, anwybyddu'r lôn sy'n ymuno o'r Dd. Ar y gyffordd T troi i'r Dd ac i'r Ch ar unwaith i'r llwybr. I lawr y grisiau a cherdded y tu ôl i'r tai. Dilyn y llwybr gan gadw'r ffens ar y LLDd. Ar ymyl y cae troi i'r Dd i fyny'r allt tua'r bwthyn. Troi i'r Ch dros gamfa garreg a chroesi buarth y bwthyn ac yna ymlaen ar hyd y lôn.

**2.** Ar gyffordd y ffordd, troi i'r Dd a dilyn y ffordd gan fynd heibio tai. Gwyrwch i'r Ch i lwybr ag arwydd

arno ac i mewn i'r coed. Dal yn syth ymlaen gan anwybyddu'r llwybr ar y Ch. Pan fydd y llwybr yn gadael y goedlan cadwch i'r Dd gan fynd heibio wyneb hen chwarel ar y Dd. Dilyn y llwybr yn ôl i'r goedlan. Croesi'r gamfa a mynd ymlaen ar draws ochr y bryn gan gadw'r ffens ar y LlCh. Wrth y postyn ffens, yn ymyl coeden a syrthiodd, ymlaen am 5m a throi i'r Ch i gerdded i lawr gan gadw'r gwrych ar y LlCh. Gwyro i'r Dd wrth yr arwyddbost, gan igam ogamu i lawr i'r coed. Croesi camfa ac, dros y gamfa nesaf. Ymlaen ar hyd y llwybr glaswelltoga a thrwy'r giât ar y Ch. Troi i'r Dd dros y gamfa risiau a gwyro i'r Ch ac i lawr y dreif gan fynd heibio mynedfa hen chwarel ar y Dd. Ymlaen ar hyd llwybr glaswellt ble mae'r dreif yn troi'n llym i'r Ch. Pan ddowch at fforch yn y llwybr, cymerwch y llwybr i'r Dd a dal ymlaen i fyny'r bryn. Syth ymlaen ble mae'r llwybr yn ymuno o'r Dd. Tua 20m y tu hwnt i gyffordd y llwybr troi i'r Dd ac i'r goedlan. Dilyn y llwybr wrth iddo ddringo'n raddol drwy'r goedlan (anwybyddu'r llwybr bach ar y Dd). Bydd y llwybr yn gwyro i'r Dd maes o law tuag at ymyl y goedlan. Yng nghornel y cae, troi i'r Dd a dilyn hen wall gerrig i fyny'r bryn i groesi'r gamfa. Cerdded ar hyd LlCh dau gau, croesi'r gamfa a mynd drwy'r giât yn ymyl 'Fairview' ac i'r ffordd.

**3.** Croesi'r ffordd a chymryd y llwybr llydan drwy'r giât gan wyro i'r Ch tua Thŷ Uchaf. Cyn cyrraedd y tŷ, ewch ar y llwybr a arwyddwyd i'r Dd a thrwy'r giât i ddilyn y llwybr rhwng y coed. Drwy'r giât ac yn syth ymlaen gan anwybyddu'r llwybr sy ar y LlCh. Drwy giât arall (tŷ gwyn yn syth ymlaen) yna i'r Dd a dilyn llwybr glaswellt i fyny'r allt. Syth ymlaen wrth i'r llwybr wastatau. Ewch drwy'r giât/camfa ac ymlaen i giât arall ac i'r ffordd.

**4.** Troi i'r Dd ar hyd y ffordd ac ymlaen i fyny'r allt. Ewch drwy'r giât fechan ar y LlCh i faes parcio Parc Gwledig Waun y Llyn. Dilyn y llwybr amlwg i'r olygfau. Ewch ymlaen ychydig o gamau yna cymerwch y llwybr llai i'r Dd ac i lawr, gan anelu at gamfa amlwg. Dros y gamfa a'r bont a chamfa arall ar fin llwybr glaswellt. Cerdded yn groesgornel ar draws y cae y tu ôl i'r hen gapel ac i'r gornel. Dilyn y ffens LLDd am 20m a gwyro i'r Ch i lawr y bryn. Ymlaen at y giât/camfa yn y ffens yn y pen draw. Troi i'r Dd i fynd drwy'r giât ac yna ymlaen i'r ffordd.

**5.** Cymerwch y ffordd gyferbyn ac i lawr yr allt. Ar ôl 250m trowch i'r Ch a dilyn ffordd fach am 1km i lawr tua Chaergwrle. Pan fydd y ffordd yn troi tua'r LlCh, cymerwch y llwybr ag arno'r arwydd i'r Dd, wrth ochr Bwthyn Celyn. Wrth gornel y wal, troi i'r Ch a dilyn y llwybr drwy'r coed y tu cefn i'r tai am 500m gan gadw'r hen wal ar y LlCh. Cadwch i'r Ch ar bob fforch yn y llwybr gan droi i'r Ch yn y diwedd i ymuno â'r lôn. Troi i'r Ch i lawr y lôn i'r ffordd fawr, yna i'r Dd ac i'r maes parcio.

*Bryn Yorkin – This Jacobean mansion is reputedly connected to Caergwrle Castle by an underground tunnel.*

*Bryn Yorkin – Yn ôl y sôn, mae twnnel tanddearol yn cysylltu'r Plas Jacobeaidd hwn â Chastell Caergwrle.*



## Quarrying

*The old quarries have now been recolonised by wildlife, but for 150 years resounded with picks and shovels, blasting and machinery.*

*Limestone from Ffrith was in demand for road building. Crushed stone was carried across the Ffrith road via an aerial cableway and mixed with tar for road surfacing at the Tarmac works. Hard silica sandstone was quarried at Waun y Llyn and used for building stone and abrasive cleaning products.*

## Chwarela

*Daeth y bywyd gwyllt yn ôl unwaith eto i'r hen chwareli ar ôl 150 mlynedd o swm caib a rhaw, ffrwydro a pheiriannau.*

*Roedd galw mawr am garreg galch y Ffrith i wneud ffyrdd. Ar ôl eu malu cludwyd y cerrig ar draws Ffordd y Ffrith ar ffordd gebl drwy'r awyr, ac yna'u cymysgu yn y gwaith Tarmac i wneud tar ar gyfer wyneb y ffyrdd. Bu cloddio am dywodfaen silica galed yn Waun y Llyn a'i ddefnyddio i wneud cerrig adeiladu a phowdwr sgwrio*



Quarry workers  
Gweithwyr yn y chwarel

Knapweed  
Pengaled

# Nant y Ffrith

## Suberb views, rolling farmland and peaceful forest

**Distance:** 8.8 km / 5.5 miles

**Time:** Allow 3 – 4 hrs

**Parking:** Cross Keys car park with landlord's permission or limited roadside parking in Llanfynydd (SJ279567)

**Grade:** Moderate, undulating terrain, several stiles

**Ten Minute Walk:** A cool forest track winding down to bridge over the Nant y Ffrith

**Facilities:** Pub and shop in Llanfynydd, two pubs in Ffrith

**Livestock:** Sheep and cattle

## Golygfeydd rhagorol, tir bryniog, a choedwig heddychlon

**Pellter:** 8.8 km / 5.5 milltir

**Amser:** Caniatáu 3 – 4 awr

**Parcio:** Maes parcio Cross Keys gyda chaniatâd y tiffeddiannwr, neu ychydig o le parcio yn Llanfynydd (SJ279567)

**Graddfa:** Cymedrol, tir bryniog, nifer o gamfeydd

**Taith gerdded 10 munud:** Llwybr drwy'r goedwig i lawr at y bont Nant y Ffrith



**Cyfleusterau:** Tafarn a siop yn Llanfynydd, 2 dafarn yn y Ffrith

**Da byw:** Defaid a gwartheg

**Waymarking / Arwyddion:**



Nant y Ffrith



## The Walk

1. From pub car park cross road and turn R and immediate L onto track. Pass under small bridge, formerly part of Llanfynydd railway station. Continue ahead where track splits and walk between redbrick house and former mill. Cross stile and continue across paddock. Cross footbridge and next stile into field. Walk diagonally R across field to cross stile in wall. Follow RH fence across next field. Cross stile and river then follow path along LH field edge above river. Just before gate and bridge go thro' gap in fence on R, following natural path above river, crossing stile. At end of path turn L along a track.
2. Where track bears L to Hafod-abley, take signed path on R through small gate and follow LH field edge. Over stile and footbridge and climb uphill along RH field edge (can be overgrown and

boggy). At corner of field turn L and follow RH field edge to stile onto lane. Turn R for about 200m to T junction. Turn L along lane, slowly climbing for approx 500m.

3. Where lane bends L take wide track on R. Cross gate/stile and continue along track.
4. Just beyond pond on L take L fork uphill on minor path. At track turn L and follow LH boundary uphill to stile and gap. Turn R onto path and follow RH fenceline to woodland edge. Cross stile and follow narrow natural meandering path through woodland. Continue ahead where path joins larger track (or detour R up track to trig point for superb view), gradually descending hillside.
5. Where path meets wide track at bottom of hill, turn R then L after 15m. Continue downhill on small natural path, passing pond on R. Continue





# Nant y Ffrith

along path, with old stone wall on L. At waymarker post on L take path sharp L, with moss covered wall on RHS. Follow path as it meanders down hillside, passing row of old yews on R (relict of Nant y Ffrith Hall pleasure grounds).

**6.** Turn L at first path junction and L again where path joins wide forest track. Continue along track for approx 1.25km, (ignoring path L) enjoying wide views of Nant y Ffrith valley to R. At end of forest track continue through metal gate/stile along narrow path. Pass paddocks and house on L, following fenced path. Turn R along drive and continue under Ffrith viaduct into village.

**7.** Turn L in front of Bluebell Inn and L down a track through Pant Joinery yard, passing office on L. Go through gate/stile and continue ahead, bearing R after approx 150m, along minor path descending towards river. Cross stile by river and turn L uphill walking under small old railway bridge. Continue up track.

**8.** Just past house on L go through gate on R and follow RH field edge to gate into farmyard. Follow drive, bearing R past house, and continue to road. Cross road and stile opposite. Continue ahead along grassy path descending hillside to stile in bottom RH corner. Cross stile and continue over next stile to retrace footsteps over footbridge, across paddock and onto track beyond mill to return to Llanfynydd.

## Y Daith Gerdded

**1.** O faes parcio'r dafarn croeswch y ffordd a throï i'r Dd ac yna i'r Ch ar unwaith i'r llwybr llydan. Ewch o dan y bont fechan oedd gynt yn rhan o hen orsaf rheilffordd Llanfynydd. Ymlaen i ble mae'r llwybr yn gwahanu a cherddwch rhwng y tŷ brics coch a'r hen felin. Croesi'r gamfa ac ymlaen dros y borfa. Croesi'r bompren a'r gamfa nesaf i'r cae. Cerdded yn groesgornel i'r Dd ar draws y cae i groesi'r gamfa yn y wal. Dilyn LIDD'r ffens ar draws y cae nesaf. Croesi'r gamfa a'r afon ac yna dilyn y llwybr ar hyd LlCh ymyl y cae y tu uchaf i'r afon. Yn union cyn dod i'r giât a'r bont ewch drwy'r bwch yn y ffens ar y LIDD, gan ddilyn llwybr naturiol uwchben yr afon, croesi'r gamfa. Pan ddaw'r llwybr i ben, troi i'r Ch ac ar hyd y llwybr llydan.

**2.** Pan fydd y llwybr hwn yn gwyrto i'r Ch i Hafod Abley, ewch ar y llwybr sydd ag arwydd arno ar y Dd a thrwy'r giât fechan a dilyn ymyl LlCh y cae. Dros y gamfa a'r bont a dringo ar hyd LIDD'r cae (gall fod gordyfiant a chors). Yng nghornel y cae, troi i'r Ch a dilyn min LIDD'r cae at y gamfa ac i'r lôn. Troi i'r Dd am 200m i'r gyffordd T. Troi i'r Ch

ar hyd y lôn, dringo'n raddol am tua 500m.

**3.** Pan fydd y lôn yn troi tua'r Ch cymerwch y llwybr llydan ar y Dd. Croesi'r giât/camfa a dal ymlaen ar hyd y llwybr llydan.

**4.** Yn union y tu hwnt i'r llyn sy ar y LlCh, cymerwch y fforch Ch i fyny ar lwybr llai. Ar y llwybr llydan, throwch i'r Ch a dilyn y ffin LlCh i fyny tua'r gamfa a'r adwy. Troi i'r Dd i'r llwybr a dilyn y ffens LIDD i ymyl y coed. Croesi'r gamfa a dilyn llwybr naturiol troellog cul drwy'r goedlan. Ymlaen i ble mae'r llwybr yn ymuno â llwybr mwy (neu ddargyfeirio i'r Dd i fyny'r llwybr am olygfa wych o'r pwynt trig), cerdded yn raddol i lawr y bryn.

**5.** Pan fydd y llwybr yn cyfarfod â llwybr llydan ar waelod yr allt, troi i'r Dd ac yna i'r Ch ar ôl 15m, ac ymlaen i lawr ar lwybr bychan naturiol gan fynd heibio'r llyn ar y LIDD. Ymlaen ar hyd y llwybr, bydd hen wal gerrig ar y LlCh. Wrth y postyn arwyddo ar y LlCh ewch ar y llwybr sy'n troi yn llym i'r Ch, sydd â wal fwsoglyd ar y LIDD. Dilynwch y llwybr wrth iddo grwydro i lawr y bryn gan fynd heibio rhes o hen goed yw ar y LIDD (olion gerddi pleser Plas Nant y Ffrith).

**6.** Troi i'r Ch ar gyffordd gyntaf y llwybr ac yna i'r Ch eto ble mae'r llwybr yn ymuno â llwybr llydan y goedwig. Dal ar y llwybr llydan am tua 1.25km, (anwybyddu'r llwybr i'r Ch) gan fwynhau golygfeydd eang o ddyffryn Nant y Ffrith ar y LIDD. Ar ben draw llwybr y goedwig, ewch ymlaen drwy giât fetel/camfa ar hyd llwybr cul. Ewch heibio'r padogau a'r tŷ ar y LlCh, gan ddilyn y llwybr sy â ffens. Troi i'r Dd ar hyd y dreif ac ymlaen o dan bont cludo dŵr y Ffrith ac i mewn i'r pentref.

**7.** Troi i'r Ch o flaen tafarn y Bluebell ac yna i'r Ch i lawr llwybr llydan i ymuno ag iard Gwaith Saer y Pant, mynd heibio i'r swyddfa ar y LlCh. Ewch drwy'r giât/camfa ac yn syth ymlaen, gwyrto i'r Dd ar ôl tua 150m, ar hyd ffordd fach gan ddisgyn tua'r afon. Croesi'r gamfa wrth yr afon a throï i'r Ch i fyny'r bryn gan gerdded o dan hen bont reilffordd. Parhau i fyny'r llwybr llydan.

**8.** Ar unwaith ar ôl y tai ar y LlCh, ewch drwy'r giât ar y LIDD a dilyn ymyl LIDD y cae i'r giât ac i mewn i'r buarth. Dilyn y dreif gan wyro i'r Dd heibio'r tŷ, ewch ymlaen i'r ffordd. Croesi'r ffordd a'r gamfa gyferbyn. Syth ymlaen ar hyd llwybr glaswellt gan fynd i lawr tua'r gamfa yn y gornel LIDD waelod. Croesi'r gamfa a mynd ymlaen dros y gamfa nesaf gan ddilyn eich trywydd yn ôl dros y bont, ar draws y padog ac i lwybr llydan y tu hwnt i'r felin i ddod yn ôl i Lanfynydd.

*Nant Y Ffrith Hall was built as a hunting lodge in 1850 by Thomas Fry, a Liverpool tea merchant. Fry died soon after its completion but the new owner turned it into a fine country residence. In 1865 it was sold to local ironmaster James Kyrke. His son enlarged it further but afterwards it gradually deteriorated and was finally demolished.*

*Look for the exotic trees, old stonework and a circle of yew trees that are the only remains of the once extensive pleasure gardens that surrounded the house.*

*Adeiladwyd Plas Nant y Ffrith yn lluest hela yn 1850 gan Thomas Fry, masnachwr te o Lerpwl. Bu farw yn fuan ar ôl ei gwblhau a gwnaeth y perchennog newydd dy braf o'r adeilad. Yn 1865 Prynodd James Kyrke, meistr haearn lleol, y tŷ. Ymestynnodd ei fab y tŷ eto, ond wedyn fe ddadfeiliodd a chafodd ei chwalu.*

*Chwiliwch am y coed dieithr, yr hen waith cerrig a'r cylch o goed yw; dyma'r cyfan sydd ar ô o'r gerddi pleser eang oedd o gwmpas y tŷ.*



Nant y Ffrith circa 1900

The former Nant y Ffrith Hall Plas Nant y Ffrith gynt



7

# Northop – Sychdyn

**A travellers' resting place, grand houses, parkland and woodland**

**Distance:** 8 km / 5 miles

**Time:** Allow 2.5 – 3 hrs

**Parking:** Car park in centre of Northop (SJ245683)

**Grade:** Moderate, many stiles, boggy patches

**Facilities:** Pubs in Northop, Sychdyn, shops in both villages

**Livestock:** Some sheep and horses

**Lle i deithwyr orffwys, tai mawreddog, parciau a choedlannau**

**Pellter:** 8 km / 5 milltir

**Amser:** Caniatau 2.5 – 3 awr



**Parcio:** Maes parcio yng nghanol Llaneurgain (SJ245683)

**Graddfa:** Cymedrol, nifer o gamfeydd, gwlyb mewn manau

**Cyfleusterau:** Tafarnau yn Llaneurgain, Sychdyn, siopau yn y naill bentref a'r llall

**Da byw:** Defaid a cheffylau

**Waymarking / Arwyddion:**



## The Walk

**1.** Leave car park on A5119 side. Cross main road and continue ahead along old High Street, passing Memorial Hall. Cross road, and continue ahead along "The Green" past housing. After lane bends, turn L over cattle grid/stile onto drive. Follow drive and then continue on grassy path to L of Green Cottage. Go thro' gate/stile, turn R, and skirt around field keeping near RH fenceline. Cross stile and walk across next field towards farm. Cross next stile and go diagonally L across field to stone stile in front of Soughton Farm. Turn R along road.

**2.** After 220m turn left along track (bridleway). Ignore footpath R and stay on BW, heading towards woodland. Ignore small path on L and continue uphill. Where track bends R take path L, passing hillock and old quarry on R. At path junction, with woodland edge to R, turn L downhill. Cross small footbridge and follow muddy track through conifer trees. At the end of conifer row continue ahead following waymarker.

**3.** Turn R onto broad track. Follow track through woodland, ignoring track to L. At woodland edge go thro' gate/stile into field. Follow path along LHS of field beside woodland. Go thro' gate and continue ahead, passing small cottage on R. At road turn L and continue for approx 1 km.

**4.** Take waymarked footpath on RHS leading to main road. Cross carefully and continue ahead along Pen Y Bryn, passing London Road on L. Turn L onto Bryn Hyfryd and continue to end to path between houses. Turn L onto New Brighton Rd and continue to waymarked footpath on RHS, leading between houses. Follow path then turn L onto road. At T-junction turn L. Continue to another T-junction and turn R. At playing fields continue straight ahead along track.

**5.** After 100m turn L over new waymarked stile. Walk along RH field edge and cross footbridge with stiles at both sides, then continue ahead thro' field. In top RH corner go thro' gate/stile. Continue along track between fields to road. Cross road and continue along lane opposite.





## Llaneurgain - Sychdyn

**6.** Just before Mount Pleasant Farm cross stile into field and walk along LHS. Cross stile onto narrow path, passing stables on L. Cross stile and follow RH fenceline.

**7.** At field end cross stile beside lodge and continue ahead down track (ignore path signed R). Continue along this clear path passing Soughton Hall on L. Pass under old stone bridge and continue to "sleeper" bridge over stream. Ignore path to R and continue along woodland edge to kissing gate (KG). Go through gate and R along track. Go through two KGs, crossing drive of Lower Soughton Hall, then onto Norththop Country Park Golf Course.

**8.** On golf course, either continue ahead towards Norththop Church and exit onto road opposite car park, or take path on L skirting golf course but continue ahead at path junction, walking around golf course edge, to cross road opposite car park.

### Y Daith Gerdded

**1.** Gadewch y maes parcio ar ochr yr A5119, croesi'r ffordd fawr ac ymlaen ar hyd yr hen Stryd Fawr, gan fynd heibio'r Neuadd Goffa. Croesi'r ffordd brysur ac ymlaen ar hyd "The Green" gan fynd heibio'r tai. Ar ôl y tro yn y lôn, troi i'r Ch dros y grid /camfa i'r dreif. Dilyn y dreif ac ymlaen ar hyd llwybr glaswellt sydd ar LICH 'Green Cottage'. Ewch drwy'r giât/camfa, troi i'r Dde ac ewch o amgylch y cae gan gadw'r ffens ar eich LIDD. Croesi'r gamfa a cherdded ar draws y cae nesaf a thua'r fferm. Croesi'r gamfa a mynd yn groesgornel tua'r Ch ar draws y cae i'r gamfa garreg sydd o flaen Fferm Soughton. Troi i'r Dde ar y ffordd.

**2.** Ar ôl 220m, troi i'r Ch ar hyd y llwybr llydan (llwybr ceffylau). Anwybyddu'r llwybr sydd ar y LIDD gan aros ar y llwybr Ceffylau, cerdded ymlaen drwy'r coed. Anwybyddu'r llwybr bach ar y LICH a mynd ymlaen i fyny'r bryn. Pan fydd y llwybr yn troi i'r dde, ewch ar y llwybr i'r Chwith, bydd bryn bach a hen chwarel ar eich LIDD. Ar gyffordd y llwybrau, cadwch at ymyl y goedwig ar eich LIDD, troi i'r Ch i lawr yr allt. Croesi pont fechan, a dilyn y llwybr gwlyb drwy'r coed conifer. Ar ben y rhes o goed conifer, ewch ymlaen gan ddilyn yr arwydd.

**3.** Troi i'r Dde i lwybr llydan. Dilyn y ffordd drwy'r llwyn, anwybyddu'r ffordd i'r Ch. Ar ymyl y llwyn, ewch drwy giât/camfa i gae. Dilyn y llwybr ar hyd LICH y cae yn ymyl y coed. Ewch drwy'r giât a pharhau ymlaen gan fynd heibio bwthyn ar y LIDD. Troi i'r Ch pan ddowch i'r ffordd, dal ymlaen am tua 1 km.

**4.** Cymerwch y llwybr sydd ag arwydd ar y LIDD



Yellow pimpernel  
Gwlydd melyn mair

sy'n arwain i'r briffordd. Croeswch yn ofalus ac ewch ymlaen ar hyd Pen Y Bryn, ewch heibio Ffordd Llundain ar eich LICH. Troi i'r Ch i Fryn Hyfryd ac ymlaen i'r diwedd i'r llwybr rhwng y tai. Troi i'r Ch i Ffordd New Brighton, ac ymlaen i'r llwybr sydd ag arwydd ar y LIDD, sy'n mynd rhwng y tai. Dilynwch y llwybr ac yna trowch i'r Ch ac i'r ffordd. Ar y Gyffordd T, trowch i'r Ch. Ewch ymlaen i'r gyffordd T nesaf, a throi i'r Dde. Wrth y caeau chwarae ewch yn syth ymlaen ar hyd y llwybr llydan.

**5.** Ar ôl 100m, troi i'r Ch dros gamfa newydd gydag arwydd arni. Cerddwch ar hyd ffin LIDD'r cae. Dros y bont sydd â chamfeydd ar y ddwy ochr, yna ymlaen drwy'r cae. Yn y gornel uchaf LIDD ewch drwy'r giât/camfa. Parhau ar hyd y llwybr llydan rhwng y caeau i'r ffordd. Croesi'r ffordd ac ymlaen ar hyd y lôn gyferbyn.

**6.** Yn union cyn cyrraedd Fferm Mount Pleasant, croeswch y gamfa i gae a cherdded ar y LICH. Croesi'r gamfa i lwybr cul, bydd stablau ar y LICH. Croesi'r gamfa a dilyn ffens LIDD.

**7.** Ar ben y cae, dringwch y gamfa yn ymyl y lodge ac ymlaen i lawr y llwybr llydan (anwybyddu'r llwybr gyda'r arwydd i'r Dde). Ymlaen ar hyd y llwybr amlwg hwn gan fynd heibio Plas Sychdyn ar eich LICH. Cerddwch dan hen bont garreg ac ymlaen i bont bren dros nant. Anwybyddu'r llwybr i'r Dde, a cherdded ymlaen i fin y llwyn i'r giât mochyn (GM). Drwy'r giât ac i'r Dde ar y llwybr llydan. Drwy ddwy giât Mochyn, croesi dreif Plas Sychdyn Isaf, ac i Glwb Golff Parc Gwledig Llaneurgain.

**8.** Ar y cwrs golff gallwch naill ai fynd ymlaen tuag Eglwys Llaneurgain ac allan i'r ffordd gyferbyn â'r maes parcio neu gallwch gymryd y llwybr sy ar y LICH o amgylch y cwrs golff ond ewch yn syth ymlaen i gyffordd llwybrau, gan gerdded o gwmpas min y cwrs golff a chroesi'r ffordd gyferbyn â'r maes parcio.

*Norththop was a welcome stopping point for travellers. It was an important medieval trading route and long pack horse trains were a familiar sight. In 1602 it became a Post Town on the London-Holyhead mail route, the main stopping point between Chester and St Asaph. By 1776 there were 7 inns in Norththop, servicing travellers' needs! Plymouth House was formerly 'The Yacht', the main inn for stagecoaches.*


*Gwysaney Hall – Look for this handsome Tudor House on the hillside as you leave the woodland beyond point 3.*

*Soughton Hall has been owned by the Bankes family from the mid 1700s and has been altered and extended many times. The stable block is now an attractive restaurant and bar.*

*Lle croesawgar i deithwyr aros oedd Llaneurgain. Yn ystod yr Oesoedd Canol roedd yma ffordd fasnachu bwysig gyda cheffylau pwn i'w gweld arni'n aml. Yn 1602 aeth yn Dref Bost ar y ffordd bost o Lundain i Gaerdybi. Dyma oedd y prif fan aros rhwng Caer a Llanelwly. Erbyn 1776 roedd saith o dafarndai yn Llaneurgain ar gyfer teithwyr. Yr enw ar Plymouth House ers talwm oedd 'The Yacht', hon oedd y brif dafarn ar gyfer y goets fawr.*

*Plas Gwasanau – Chwiliwch am y tŷ hardd o oes y Tuduriaid ar ochr y bryn tua pwynt 3.*

*Bu'r Teulu Bankes yn berchen ar Blas Sychdyn o ganol y 1700s. Cafodd ei newid a'i ymestyn lawer gwaith. Mae'r bloc stablau erbyn hyn yn fwyty hardd a bar.*



Soughton Hall  
Plas Sychdyn

8

# Waun y Llyn - Llanfynydd

## Breathtaking views, industrial heritage, peaceful countryside

**Distance:** 6.5 km / 4 miles

**Time:** Allow 2 – 2.5 hrs

**Parking:** Waun y Llyn Country Park (SJ286577) or small car park at beginning of old railway (SJ269589)

**Grade:** Moderate (one steady ascent), several stiles

**Ten Minute Walk:** Choose between a restored dismantled railway along the valley bottom (RADAR key on gate), or beautiful hilltop Waun Y Llyn Country Park

**Facilities:** Pubs and post offices in Llanfynydd and Coed Talon

**Livestock:** Sheep and cattle

**Additional Information:** Llanfynydd booklet available from shops and pubs

## Golygfeydd syfrdanol, treftadaeth ddiwydiannol, cefn gwlad tawel

**Pellter:** 6.5 km / 4 milltir

**Amser:** Caniatáu 2 – 2.5 awr

**Parcio:** Parc Gwledig Waun y Llyn neu'r maes parcio bychan wrth fan cychwyn yr hen reilffordd

**Graddfa:** Cymedrol (un ddringfa raddol), nifer o gamfeydd

**Taith gerdded 10 munud:** Dewiswch gerdded naill ai ar hyd hen reilffordd sydd wedi'i hadfer ar hyd gwaelod y dyffryn (goriad RADAR ar y giât) neu ewch i gopa'r bryncyn ym Mharc Gwledig Waun y Llyn.

**Cyfleusterau:** Tafarnau, swyddfeydd post yn Llanfynydd a Choed Talon


**Da byw:** Defaid a gwartheg

**Mwy o wybodaeth:** Llyfryn Llanfynydd ar gael mewn siopau a thafarnau

**Waymarking / Arwyddion:**



Toposcope, Waun y Llyn



## The Walk

**1.** From end of car park follow clear path to stone toposcope at viewpoint. Then continue along top of Hope Mountain on this path, keeping to L of old quarry. Follow path (it narrows and meanders in places) along top of hill, enjoying the wide views.

**2.** Just beyond seat on L take waymarked narrow path L down to visible stile. Cross this and 2nd stile edging track then walk down RHS of field. Cross stile ahead and continue along RHS of next field. Turn R at wall corner and follow wall to gate onto road. Turn L and walk downhill on road. Turn R at junction and continue downhill passing former Sion chapel on R.

**3.** Turn L just beyond chapel into parking area. Walk ahead thro' gate and follow path along disused railway track for approx 2km. Go thro' gate at end of old railway and turn L onto road. Walk carefully along road towards Llanfynydd.

**4.** Turn L onto a lane just past Clwyd Disabled Riding Centre. After 700m where road bears L, turn R and follow drive past Springfield House. Before drive continues to Bramble Barn, bear R thro' gate. Continue uphill on this path between fields. After crossing the second stile, follow the right hand bend, keeping the house and woodlands on L. You emerge onto hillside with large white house on L.

**5.** Bear L on path (ignoring path signed R on stile) and follow path edged by old wall, climbing at first. Continue ahead as path levels out with superb views on L to Moel Famau. Go thro' gate/stile and continue ahead until reach another gate onto road. Turn R along road and continue uphill to small gate on left. Go thro' gate into car park of Waun y Llyn Country Park.

## Y Daith Gerdded

**1.** O ben y maes parcio, dilyn llwybr eglur i'r olygfán. Yna parhau ar hyd copa Mynydd yr Hob ar y llwybr hwn, cadw i ochr Ch yr hen

[www.borderlands.co.uk](http://www.borderlands.co.uk)

38 Visit Flintshire's pretty villages and towns







# Waun y Llyn - Llanfynydd

chwarel. Dilyn y llwybr (mae'n culhau ac yn troi mewn rhai lleoedd) ar hyd pen y bryn gan fwynhau golygfeydd eang.

2. Ar un waith ar ôl y sedd ar y LlCh, ewch ar y llwybr cul a arwyddwyd Ch i lawr i'r gamfa amlwg. Croesi'r gamfa hon, a'r ail gamfa ar fin y llwybr yna cerddwch i lawr LLDd'r cae. Croesi'r gamfa sydd o'ch blaen ac ymlaen ar hyd LLDd'r cae nesaf. Troi i'r Dd wrth gornel y wal i'r giât ac i'r ffordd. Troi i'r Ch a cherdded i lawr yr allt ar hyd y ffordd. Troi i'r Dd wrth y Gyffordd T gan barhau nes bydd y ffordd yn troi i'r Dd, mynd heibio hen gapel Seion ar y LLDd.

3. Troi i'r Ch yn union y tu hwnt i'r capel i'r man parcio. Cerdded drwy'r giât a dilyn y llwybr ar hyd hen reilffordd am tua 2km. Mynd drwy'r giât sydd ar ben yr hen reilffordd a throi i'r Ch i'r ffordd. Cerdded yn ofalus ar hyd y ffordd i Lanfynydd.

4. Troi i'r Ch i lôn yn union ar ôl mynd heibio Canolfan Farchogaeth Clwyd i'r Anabl. Ar ôl 700m mae'r ffordd yn gwyr tua'r Ch. Trowch i'r Dd a dilyn y dreif heibio Springfield House. Cyn i'r dreif barhau i Bramble Barn, gwyr i'r Dd drwy'r giât. Ewch ymlaen i fyny'r allt gan ddilyn y llwybr rhwng y caeau. Ar ôl croesi'r ail gamfa, dilynwch y tro i'r dde, gan gadw'r tŷ a'r goedwig ar y chwith. Daw'r llwybr â chi i ochr y bryn a bydd tŷ mawr gwyn ar y chwith.

5. Gwyr i'r Ch ar y llwybr (anwybyddu'r llwybr sydd ag arwydd i'r Dd ar y gamfa) gan ddilyn y llwybr sydd â hen wal ar ei ymyl, gan ddringo i ddechrau. Parhau ymlaen wrth i'r llwybr wastatau gyda golygfeydd gwych i'r Ch i Foel Famau. Mynd drwy'r gamfa/giât ac ymlaen nes cyrraedd giât arall ac i'r ffordd. Troi i'r Dd ar hyd y ffordd a pharhau i fyny i giât fechan ar y LlCh. Mynd drwy'r giât i faes parcio Parc Gwledig Waun y Llyn.

*Common spotted orchids edge the railway path in summer*

*Yn yr haf, gwelir y tegeirian mannog yn tyfu ar ymyl llwybr y rheilffordd.*



*Former tramway winding house  
Tŷ weindio'r hen dramffordd*

## Waun-y-Llyn quarry

*The hard silica sandstone of Waun y Llyn was quarried in 19th and early 20th centuries. It was taken down the hillside by tramway to Coed Talon where it was ground to produce silica powder. The old quarries are very noticeable but you can also find remnants of the tramway. Look for the stone base of a winding house by the quarry below the seat and, as you walk down the hillside from the Country Park, another winding house is visible ahead.*

## Chwarel Waun-y-Llyn

*Cloddiwyd am garreg dywod silica galed Waun y Llyn yn ystod yr 19eg a'r 20fed ganrif. Cludwyd i lawr y bryn ar ffordd dramiau i Goed Talon i'w falu'n bowdwr silica. Mae'r hen chwareli'n amlwg iawn, ond gallwch weld olion yr hen dramffordd hefyd. Edrychwch am sylfeini cerrig yr hen dŷ weindio yn ymyl y chwarel y tu isaf i'r sedd. Wrth gerdded i lawr o'r Parc Gwledig gallwch weld tŷ weindio arall o'ch blaen.*



*Coed Talon Station prior to closure.  
Gorsaf Coed Talon cyn ei chau.*

## Disused Railway Line

*When the Mold – Brymbo line opened in the late 19th century, Coed Talon soon became a busy railway junction, bustling with laden trucks transporting coal, oil and stone from the nearby works and mines. The railway closed in the 1950s and the track was removed. This section was opened in 2004 for walking, cycling and riding. The adjoining wetland is now managed as a nature reserve.*

## Hen lein y rheilffordd

